



RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
31/2019
DYDDIAD CYHOEDDI:
11/07/2019

Ymchwil i leoli a defnyddio staff cymorth ysgolion cynradd yng Nghymru

Ymchwil i leoli a defnyddio staff cymorth ysgolion cynradd yng Nghymru

Awduron: Yr Athro David Egan, Yr Athro Gary Beauchamp, Dr Mirain Rhys ac Angharad Williams, **Prifysgol Metropolitan Caerdydd**

Adroddiad Ymchwil Llawn: Egan, D; Beauchamp, G; Rhys, M; Williams, A; (2019). *Ymchwil i leoli a defnyddio staff cymorth ysgolion cynradd yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad GSR rhif 31/2019
Ar gael yma: <https://llyw.cymru/ymchwil-i-leoli-defnyddio-staff-cymorth-ysgolion-cynradd>

Safbwyntiau'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

David Roberts

Is-adran Gwybodaeth ac Ymchwil Cymdeithasol

Llywodraeth Cymru

Sarn Mynach

Cyffordd Llandudno

LL31 9RZ

0300 062 5485

Ebost: ymchwilysgolion@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr o dablau.....	2
Rhestr o ffigurau	3
Geirfa.....	4
1. Cyflwyniad / Cefndir	6
2. Methodoleg	18
3. Canfyddiadau	22
4. Casgliadau	62
5. Argymhellion	65
6. Cyfeiriadau	66
7. Atodiadau	69

Rhestr o dablau

Tabl 1- Cyfrifoldebau Cynorthwywyr Addysgu	8
Tabl 2: Canran y staff cymorth a gyflogir yn gyfan gwbl drwy ddefnyddio arian grant.....	23
Tabl 3: Canran y staff cymorth a gyflogir drwy ddefnyddio elfen o arian grant gydag arian ychwanegol o rywle arall	24
Tabl 4: Pa fath o waith a ofynnir i chi ei wneud yn eich rôl yn weithiwr cymorth dysgu?.....	26
Tabl 5: Pa fath o waith rydych chi'n gofyn i'ch staff cymorth ei wneud?.....	27
Tabl 6: Lefel y cytuno â'r gosodiad 'Rwyf yn gallu ymdopi â'm baich gwaith presennol yn effeithiol o fewn fy oriau gwaith cytunedig'	30
Tabl 7: Lefel cymhwyster y staff cymorth	38
Tabl 8: Gweithgareddau dysgu proffesiynol a wnaed gan staff cymorth yn ystod y 12 mis diwethaf.....	40
Tabl 9: Ble roedd y dysgu proffesiynol yn digwydd?	41
Tabl 10: Pwy oedd wedi cyflawni'r dysgu proffesiynol?	41
Tabl 11: Pa weithgareddau dysgu proffesiynol y mae'r penaethiaid wedi'u darparu neu eu cyllido ar gyfer GCD yn y 12 mis diwethaf?.....	43
Tabl 12: Beth yw'r rhwystrau mwyaf sy'n atal staff cymorth rhag bod â mynediad i ddysgu proffesiynol?	45
Tabl 13: Meysydd lle y bydd staff cymorth yn croesawu datblygiad pellach?	47
Tabl14: Pa feysydd gafodd eu cynnwys yn eich adolygiad rheoli perfformiad diwethaf?	59

Rhestr o ffigurau

Atodiad 2.1: Pa awdurdod lleol sydd yn eich cyflogi?	71
Atodiad 2.2: Ers faint o flynyddoedd rydych chi'n gweithio yn weithiwr cymorth dysgu (GCD) yn yr ystafell ddosbarth?	72
Atodiad 2.3: I faint o ysgolion rydych chi wedi gweithio yn GCD?.....	73
Atodiad 2.4: Ers faint o flynyddoedd rydych chi yn eich ysgol bresennol?	73

Geirfa

Testun yr eirfa

Acronym / Geiriau Allweddol	Diffiniad
ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol)	Darpariaeth ar gyfer disgyblion sydd â phroblem dysgu neu ag anabledd a fydd yn ei gwneud yn fwy anodd iddyn nhw ddysgu o'i gymharu â'r rhan fwyaf o blant o'r un oedran
CCD (Consortiwm Canolbarth y De)	Gwasanaeth rhanbarthol gwella ac effeithiolrwydd ysgolion ar gyfer siroedd Pen-y-bont, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg
GCA (Gwasanaeth Cyflawni Addysg)	Gwasanaeth rhanbarthol gwella ac effeithiolrwydd ysgolion ar gyfer siroedd Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen.
CGA (Cyngor y Gweithlu Addysg)	Y rheolydd annibynnol yng Nghymru ar gyfer athrawon mewn ysgolion a gynhelir, athrawon Addysg Bellach a staff cymorth dysgu mewn ysgolion a cholegau Addysg Bellach, yn ogystal â Gweithwyr Ieuenctid a phobl sy'n ymwneud â dysgu yn y gweithle.
Llythrennedd Emosiynol	Y gallu i ddeall a mynegi teimladau
ERW (Ein Rhanbarth ar Waith)	Gwasanaeth rhanbarthol gwella ac effeithiolrwydd ysgolion ar gyfer siroedd Caerfyrddin, Ceredigion, Castell Nedd Port Talbot, Penfro, Powys ac Abertawe
Estyn	Arolygiaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru a fydd yn arolygu ac yn cynnig cyngor annibynnol ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant a gynigir yng Nghymru
Cyfnod Sylfaen	Y cwricwlwm statudol ar gyfer pob plentyn 3-7 oed yng Nghymru

GwE	Gwasanaeth rhanbarthol gwella ac effeithiolrwydd ysgolion ar gyfer siroedd Ynys Môn, Conwy, Dinbych, Fflint, Gwynedd a Wrecsam.
CALU (Cynorthwydd Addysgu Lefel Uwch)	Staff cymorth ysgol sydd â chyfrifoldeb ar y lefel uchaf, gan gynnwys bod yn gallu addysgu dosbarthiadau ar eu pennau eu hunain, cyflenwi mewn cyfnodau o absenoldeb cynlluniedig a galluogi athrawon i fod ag amser i gynllunio ac i farcio
GCD (Gweithiwr Cymorth Dysgu)	Term cyffredin a fydd yn cynnwys yr holl staff cymorth addysgu, cynorthwywyr addysgu a staff cymorth addysg; yn cael ei ddefnyddio mewn cyd-destunau gwahanol ar draws Cymru
PCA (Paratoi, Cynllunio ac Asesu)	Amser wedi'i neilltuo ar yr amserlen ar gyfer athrawon yn ystod eu diwrnod addysgu i'w galluogi i wneud gwaith cynllunio, paratoi ac asesu
Dysgu Proffesiynol	Cyfleoedd i weithwyr proffesiynol ym myd addysg wella'u gwybodaeth, eu sgiliau a'u hymarfer
GDD (Grant Datblygu Disgyblion)	Grantiau a wneir i ysgolion yng Nghymru i roi cymorth ariannol i helpu i fynd i'r afael ag effeithiau tlodi ar gyrhaeddiad addysgol – Grant Amddifadedd Disgyblion gynt
CARh (Consortia Addysg Rhanbarthol)	Gwasanaethau rhanbarthol gwella ac effeithiolrwydd ysgolion yng Nghymru: Consortiwm Canolbarth y De, GCA, ERW a GwE
Staff Cymorth	Amrywiaeth o aelodau o staff ysgolion sy'n darparu hyfforddiant arbenigol a chymorth arall i ddisgyblion
CLILC (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru)	Sefydliad cenedlaethol sy'n cynrychioli buddiannau a safbwyntiau llywodraeth leol yng Nghymru

1. Cyflwyniad / Cefndir

- 1.1 Yn Chwefror 2018 penodwyd Prifysgol Metropolitan Caerdydd gan Lywodraeth Cymru i wneud ymchwil i leoli a defnyddio Gweithwyr Cymorth Dysgu yn yr ystafell ddosbarth mewn ysgolion ar draws Cymru.
- 1.2 Nodau'r ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru y mae'r adroddiad hwn yn seiliedig arno, oedd adnabod:
 - Rolau a chyfrifoldebau y gofynnir i Weithwyr Cymorth Dysgu yn yr ystafelloedd dosbarth (staff cymorth o hyn ymlaen) eu cyflawni mewn ysgolion cynradd yng Nghymru (**lleoli a defnyddio**).
 - Pa ddysgu proffesiynol sydd ar gael ar gyfer staff cymorth (**dysgu proffesiynol**).
 - Sut bydd arweinwyr ac athrawon yr ysgolion yn sicrhau y caiff staff cymorth eu lleoli a'u defnyddio yn effeithiol (**effaith**).
 - Ymarfer effeithiol yn y meysydd hyn a sut gellid hyrwyddo hyn ar draws system addysg Cymru (**ymarfer effeithiol**).
- 1.3 Ar adeg ysgrifennu hwn, mae mwy na 500,000 o staff cymorth i athrawon yn system addysg y DU â thua 31,000 o'r rhain wedi'u cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yng Nghymru a thua 18,000 o'r rheiny yn gweithio mewn ysgolion cynradd yng Nghymru: erbyn hyn maen nhw'n gyfran uwch o'r gweithlu na'r staff addysgu (Adran Addysg, 2018; Cyngor y Gweithlu Addysg, 2017).
- 1.4 Dechreuodd y twf yn nifer y staff cymorth o fewn system addysg Cymru a'r DU gyda chytundeb y daethpwyd iddo yn 2003 rhwng Llywodraeth y DU, awdurdodau lleol a chymdeithasau'r athrawon i leihau baich gwaith athrawon. Fe wnaeth hyn sicrhau y gallai athrawon fod ag amser paratoi a chynllunio (PCA) pendant a fyddai wedi'i ddiogelu wrth i fwy o staff cymorth gael eu cyflogi yn yr ysgolion (Cytundeb Baich Gwaith Athrawon).
- 1.5 Yng Nghymru fe ddaeth y cynnydd nesaf yn nifer y staff cymorth o ganlyniad i gyflwyno'n raddol ar ôl 2004 gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 3–7 oed a oedd yn gofyn cymarebau disgybl-athro uwch, yn enwedig yn y dosbarthiadau

meithrin a derbyn â mwyafrif yr oedolion ychwanegol yn staff cymorth (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003 a 2008a).

- 1.6 Fe wnaeth ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol arwain yn gyntaf yn 2006 at neilltuo rhagor o gyllid i ysgolion drwy raglen RAISE (Holtom, 2017) ac oddi ar 2010, drwy Grant Amddifadedd Disgyblion (Grant Datblygu Disgyblion nawr) (Llywodraeth Cymru 2013a). Er nad bwriad y defnydd ar y grantiau hyn o raid oedd penodi staff ychwanegol i ysgolion, fel y bydd adroddiadau gwerthuso y ddwy fenter hyn yn ei nodi; o ganlyniad gwelwyd twf sylweddol pellach yn nifer y staff cymorth.
- 1.7 Arweiniodd datblygiad anghyson a chyflym iawn yng ngweithlu'r staff cymorth at fanteision a heriau ar gyfer y system addysg yng Nghymru fel y mae'r adroddiad hwn yn ei amlygu. Un enghraifft o hyn yw'r cynnydd yn nifer y dynodiadau a'r teitlau swyddi, a chanfu Cyngor y Gweithlu Addysg wrth ddechrau cofrestru'r staff hyn o 2016 ymlaen fod mwy na 3,000 o deitlau swyddi gwahanol yn bod.
- 1.8 Mae'r canllawiau a sefydlwyd gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol yn 2003 yn galluogi ysgolion i gyflogi cynorthwyyr addysgu ar y lefelau canlynol ac â'r cyfrifoldebau a nodir (Cyd-gyngor Cenedlaethol, 2003, Llywodraeth Cymru, 2011):

Tabl 1 – Cyfrifoldebau Cynorthwyyr Addysgu

Lefelau	Rolau
Cynorthwyyr Addysgu Lefel Uwch (CALU) sydd wedi bodhau'r gofynion cenedlaethol ar gyfer CALU	Ymgymryd ag amrywiaeth eang o rolau yn unol ag anghenion, math a chyfnod oedran yr ysgol. Ym mhob enghraifft, bod ag un maes arbenigol penodol o leiaf yn natblygiad dysgu a lles disgyblion; gweithio gydag unigolion, grwpiau bach a dosbarthiadau cyfan i arwain dysgu ac addysgu dosbarthiadau cyfan heb fod athro'n bresennol.
Cynorthwyydd Addysgu Gradd 4	Ategu gwaith proffesiynol athrawon drwy fod yn gyfrifol am weithgareddau cytunedig o dan system oruchwylio gytunedig. Gallai hyn gynnwys cynllunio, paratoi a chyflawni gweithgareddau dysgu ar gyfer unigolion/grwpiau neu dros dymor byr ar gyfer dosbarthiadau cyfan a monitro disgyblion ac asesu, cofnodi ac adrodd ar gyrhaeddiad, cynnydd a datblygiad disgyblion. Yn gyfrifol am reoli a datblygu meysydd arbenigol o fewn yr ysgol a/neu reoli cynorthwyyr addysgu eraill gan gynnwys dyrannu a monitro gwaith, arfarnu a hyfforddi.
Gradd 3	Gweithio o dan arweiniad athro/staff uwch ac o fewn system oruchwylio gytunedig i gael gweithredu rhaglenni gwaith cytunedig gydag unigolion/grwpiau, y tu mewn neu y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Gallai hyn gynnwys y rheiny lle y byddai angen gwybodaeth fanwl ac arbenigol mewn meysydd penodol a byddai'n cynnwys cynorthwyo'r athro yn y cylch cynllunio cyfan a rheoli/paratoi adnoddau. Mae'n bosib y byddai staff yn goruchwylio dosbarthiadau hefyd yn ystod absenoldeb tymor byr athrawon. Bydd y ffocws pennaf ar gadw trefn a chadw'r disgyblion i barhau â'u tasgau. Bydd angen bod goruchwylwyr cyflenwi yn ymateb i gwestiynau ac yn cynorthwyo'r disgyblion yn gyffredinol i ymgymryd â gweithgareddau penodol.
Gradd 2	Gweithio o dan gyfarwyddyd/arweiniad athro/staff uwch i gyflawni rhaglenni gwaith/gofal/cymorth, i sicrhau mynediad i ddysgu ar gyfer disgyblion a chynorthwyo'r athro i reoli'r disgyblion a'r ystafell ddosbarth. Gellir gwneud y gwaith yn yr ystafell ddosbarth neu y tu allan i'r prif ardal addysgu.
Gradd 1	Gweithio o dan gyfarwyddyd uniongyrchol athro/staff uwch, yn yr ystafell ddosbarth gyda'r athro fel arfer, i gefnogi mynediad i ddysgu ar gyfer disgyblion a rhoi cymorth cyffredinol i'r athro o ran rheoli'r disgyblion a'r ystafell ddosbarth.

Comisiwn yr Ymchwil

1.9 Adnabuwyd y cwestiynau canlynol o ran pob un o nodau'r ymchwil:

Lleoli a Defnyddio

- Pa dasgau penodol a ofynnir i staff cymorth eu cyflawni?
- A fydd y staff cymorth yn cynnig ymyriadau penodol i'r disgyblion neu a ydyn nhw'n cefnogi'r athro a'r disgyblion yn fwy cyffredinol?
- A fydd y staff cymorth yn gweithio gyda grwpiau penodol megis disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion isel eu cyrhaeddiad, rhai mwy galluog a dawnus, a disgyblion ADY?
- A oes barn wahanol gan arweinwyr ysgol ac athrawon ynglŷn â rôl staff cymorth?

Dysgu Proffesiynol

- Pa gymwysterau a phrofiad addysgol sydd gan staff cymorth?
- Pa gyfleoedd sydd ar gael i staff cymorth ar gyfer dysgu proffesiynol?
- A oes mynediad gan y staff cymorth i'r cyfleoedd hyn?
- Pa gyfleoedd ychwanegol ddylai fod ar gael yn ôl arweinwyr ysgolion, athrawon a staff cymorth?

Effaith

- Pa arweiniad/tystiolaeth sydd ar gael i arweinwyr ysgolion ac athrawon ynglŷn â rôl y staff cymorth ac a gaiff ei ddefnyddio?
- Beth yw disgwyliadau arweinwyr ac athrawon ysgol oddi wrth staff cymorth?
- Pa brosesau rheoli perfformiad fydd ysgolion yn eu defnyddio i asesu effaith ac anghenion staff cymorth?
- Ym mha ffyrdd eraill fydd arweinwyr ac athrawon ysgol yn asesu effeithiolrwydd staff cymorth?
- Pa arweiniad/gwybodaeth ychwanegol fydd eu hangen ar arweinwyr ac athrawon ysgol o ran lleoli a defnyddio staff cymorth yn y ffordd fwyaf effeithiol?

Ymarfer Effeithiol

- Beth mae arweinwyr, athrawon a staff cymorth ysgolion yn ei ystyried yn ymarfer effeithiol?
- Pa dystiolaeth sydd ar gael ynglŷn â lleoli a defnyddio, dysgu proffesiynol ac effaith i gefnogi eu barn?

Ymchwil sy'n bodoli eisoes

- 1.10 Mae ymchwil ar effaith staff cymorth ar ansawdd addysgu a chyrhaeddiad myfyrwyr, o feddwl yn gymharol, yn ei fabandod. Mae llawer o'r ymchwil hwn yn ymwneud â datblygiadau yn Lloegr ond mae rhywfaint bach o dystiolaeth berthnasol o Gymru a rhywfaint o'r Alban.

Ymchwil a Thystiolaeth o Loegr

- 1.11 Fe gafodd ymchwil a wnaed yn Lloegr dros yr ugain mlynedd ddiwethaf ei grynhoi mewn cyfres o astudiaethau (Whitehorn, 2010; Higgins et al, 2016; Blatchford et al, 2012; Russell et al, 2012; Webster a Blatchford, 2017) sy'n awgrymu, er y gall staff cymorth wneud gwahaniaeth i'r rheoli yn yr ystafell dosbarth, ni fyddan nhw'n cael effaith fawr ar ddysgu ac ar ddatblygiad plant oni bydd hynny wedi'i gynllunio'n benodol ac wedi'i gefnogi gan ddatblygiad proffesiynol priodol.
- 1.12 Mae'r ymchwil hwn ac astudiaethau eraill (er enghraifft Rubie-Davies et al, 2010 a Whitehorn, 2010) hefyd yn awgrymu y gallai gor-ddefnyddio neu gam-ddefnyddio staff cymorth yn yr ystafelloedd dosbarth fod yn wrth-gynhyrchiol i'r graddau po fwyaf o gymorth y bydd disgyblion yn ei dderbyn oddi wrth staff cymorth, lleiaf i gyd y byddan nhw'n cynyddu. Gallai hyn fod yn wir yn arbennig lle y bydd staff cymorth yn canolbwyntio mwy ar helpu disgyblion i gwblhau tasgau yn hytrach na datblygu dysgu a dealltwriaeth y disgyblion yn y ffordd y gall athrawon effeithiol iawn wneud hynny. Argymhellwyd na ddylai datblygiad dysgu disgyblion fod yn cael ei adael yn gyfan gwbl i'r staff cymorth ac y dylai lleoli a defnyddio ac effeithiolrwydd y staff hyn fod yn cael eu gwerthuso'n ofalus ym mhob ysgol.

- 1.13 Mae canlyniadau'r ymchwil hwn wedi'u hadlewyrchu ym meta-ddadansoddiad tystiolaeth ymchwil a wnaed gan yr *Education Endowment Foundation* i gael cynnig arweiniad i ysgolion ar y defnydd mwyaf effeithiol ar gynorthwyyr addysgu (Sharples et al, 2018). Roedd yr arweiniad hwn¹ yn awgrymu y gall cynorthwyyr addysgu effeithio'n bositif ar gyrhaeddiad academiaidd os caiff yr amodau canlynol eu boddhau:
- Ni ddylid eu defnyddio yn adnodd addysgu anffurfiol ar gyfer disgyblion isel eu cyrhaeddiad.
 - Dylid eu defnyddio i ychwanegu gwerth i'r hyn y bydd athrawon yn ei wneud ac nid i'w rhoi yn lle'r athrawon.
 - Dylen nhw helpu disgyblion i ddatblygu sgiliau dysgu annibynnol ac i reoli eu dysgu nhw eu hunain.
 - Dylen nhw gael eu paratoi'n llawn ar gyfer eu rôl yn yr ystafell ddosbarth.
 - Dylen nhw fod yn cynnig cymorth un-i-un a chymorth i grwpiau bach drwy ddefnyddio ymyriadau strwythuredig.
 - Dylen nhw fod yn mabwysiadu ymyriadau ar sail tystiolaeth.
 - Dylen nhw sicrhau y gwneir cysylltiadau penodol rhwng dysgu oddi wrth yr addysgu yn yr ystafell ddosbarth bob dydd ac oddi wrth ymyriadau strwythuredig.
- 1.14 Mae prosiect MITA (*Maximizing the Impact of Teaching Assistants*), sydd wedi'i gyllido gan yr EEF (*Education Endowment Foundation*), yn atgyfnerthu ymhellach bwysigrwydd cynnig cyfleoedd datblygu proffesiynol i staff cymorth. Mae hwn yn gweithio gyda 60 o ysgolion cynradd ar draws Lloegr i weithredu pecyn arloesol o gymorth strategol ar gyfer arweinwyr ysgolion a datblygiad proffesiynol ar gyfer cynorthwyyr addysgu. Mae ei ganfyddiadau cychwynnol yn awgrymu bod effaith y cymorth hwn ar gynorthwyyr addysgu yn helpu'n sylweddol i godi 'eu proffil ac i fagu mwy o hyder ac ymdeimlad o hunan-werth ynddyn nhw'. O ganlyniad gwelwyd cydweithio mwy effeithiol gydag athrawon a ffocws gwell ar ddatblygu disgyblion yn ddysgwyr annibynnol (Webster, 2018).

¹ [Tystiolaeth EEF Crynodeb o Effeithiolrwydd Cynorthwyyr Addysgu](#)

- 1.15 Canfu astudiaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar ymchwil sydd am y tro cyntaf yn pwysu'n drwm ar lais staff cymorth eu hunain, eu bod 'yn aml yn teimlo wedi'u datgysylltu ac ar wahân i raddau oddi wrth weithlu ehangach yr ysgol, yn debygol o fod yn cael eu harwain a'u rheoli mewn ffordd wan neu ddryslyd, a heb lais pendant'. Fe wnaeth yr ymchwil gasglu bod lleoli a defnyddio, rheoli ac arwain staff cymorth mewn llawer ysgol yn 'dal i ddigwydd mewn ffordd anghyson, gan ddibynnu ar ewyllys da yn hytrach nag ar hanfodion strategol' (Basford, 2017).
- 1.16 Canfu astudiaeth arall fod newid mawr wedi digwydd o ran disgwyliadau rôl staff cymorth fel y byddan nhw bellach yn ymgymryd â myrdd o rolau, gan gynnwys cymorth i'r dysgwyr, ymyriadau ymddygiad, mynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion, ymgysylltiad rhieni, gwaith cynhwysol a chymorth i'r cwricwlwm. Yn ogystal, maen nhw'n credu eu bod nhw'n dod yn fwy a mwy ymatebol wrth i fwy o bwyslais gael ei roi ar yr effaith a gân nhw ar safonau disgyblion. O gofio mai ystyried eu swyddi yn 'swyddi cyfleustra' roedden nhw i ddechrau yn hytrach nag yn yrfa o'u dewis, bydd llawer ohonyn nhw nawr yn cael eu hunain yn ymgymryd â rôl nad oedden nhw wedi disgwyl ei gwneud ac nad ydyn nhw, yn eu barn nhw, wedi'u paratoi ar ei chyfer (Nash, 2014 a gweler hefyd Butt a Lowe, 2012 a Sharma a Saland, 2016).
- 1.17 Mae'r ymchwil hwn yn anuniongyrchol yn codi mater y cymwysterau a fydd gan staff cymorth cyn dechrau yn eu swydd. Dangosodd arolwg o'r holl staff cymorth mewn ysgolion yn Lloegr a wnaed yn 2010 ar ran yr Adran Addysg fod tua 10% heb ddim cymwysterau, fod TGAU gan ryw 50%, safon U neu UG gan 20-25% a bod tua 10% yn raddedigion (Whitehorn, 2010).
- 1.18 Dangosodd canfyddiadau eraill o'r arolwg hwn yr effaith bositif y gall staff cymorth ei chael ar faich gwaith, boddhad swydd a lefelau straen athrawon (Whitehorn, 2010). Fodd bynnag, canfu mai prin iawn oedd yr athrawon a oedd wedi derbyn hyfforddiant ar y ffyrdd gorau i weithio gyda staff cymorth a bod rheoli perfformiad staff cymorth yn amrywio o ran ei safon ac yn aml yn wan. Nododd hefyd y byddai staff cymorth yn gyffredinol yn ymafael â chyfluoedd datblygiad proffesiynol am

resymau personol yn hytrach na rhai gyrfaol a hynny am fod y cyfleoedd i gael dyrchafiad ac i ddatblygu eu gyrfa yn brin (Whitehorn, 2010).

1.19 Mae'r darn canlynol o'r adroddiad hwn yn cyfleu ei gasgliadau'n dda:

'Mae diwylliant ac ethos yr ysgol yn ffactor allweddol wrth leoli a defnyddio staff cymorth. Yn yr ysgolion lle y câi staff cymorth eu lleoli a'u defnyddio'n effeithiol, roedd diwylliant cryf o broffesiynoldeb ac atebolrwydd ar gyfer pob aelod o'r staff. Roedd strwythurau gyrfa clir gan y staff cymorth, roedden nhw wedi'u hyfforddi a'u rheoli'n dda, ac roedden nhw'n gwybod yn glir sut roedd eu gwaith yn cyfrannu i ddysgu'r disgyblion. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod lleoli a defnyddio staff cymorth yn strategol yn parhau i esblygu yn yr ysgolion. Yn aml bydd athrawon yn gwneud penderfyniadau am leoli a defnyddio heb unrhyw gyfarwyddyd strategol' (Whitehorn, 2010, t53).

1.20 Awgrymodd adolygiad mwy diweddar o'r llenyddiaeth ymchwil yn y maes hwn yn 2016 fod diffyg eglurder yn parhau ar lefel lywodraethu neu yn y system addysg ei hunan ar rolau staff cymorth a bod i hyn oblygiadau o ran eu lleoli a'u defnyddio, eu hyfforddiant a telerau ac amodau eu cyflogaeth. Mae'n dadlau i Lywodraeth y DU 'drosglwyddo'r cyfrifoldeb o Whitehall i'r ysgolion' yn y maes hwn gan arwain i'r amrywiaeth eang sy'n bodoli mewn gwirionedd (Clarke a Visser, 2016, t269). Yng Nghymru, fodd bynnag, awdurdodau lleol yn hytrach nag ysgolion fydd yn llunio'r telerau ac amodau ar gyfer cyflogi staff cymorth.

Ymchwil a Thystiolaeth o Gymru

1.21 Roedd y rhaglen Cymru'n Un yn 2007 ar gyfer llywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer staff cymorth ysgolion. O ganlyniad comisiynodd Llywodraeth Cymru ymchwil i'r maes hwn. Gofynnwyd i bob ysgol yng Nghymru gwblhau holiadur yn ymwneud â'u holl staff cymorth; cwblhaodd 27% o'r ysgolion cynradd yr holiadur a chafwyd pedwar cyfweliad ansoddol yn yr ysgolion (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008b).

1.22 Dangosodd prif gasgliadau'r ymchwiliad hwnnw:

- Gan fod 95% o staff cymorth ysgolion yn fenywod, awgrymodd yr adroddiad fod 'goblygiadau gan hyn o ran naws gyffredinol yr ysgolion' oherwydd diffyg esiamplau gwrywol yn y staff addysgu a'r staff cymorth, yn enwedig yn yr ysgolion cynradd (t119).
- Gan fod 57% o'r staff cymorth dros 40 oed ac o gofio'r anawsterau roedd ysgolion yn eu hwynebu yn recriwtio staff cymorth, gallai fod yn heriol yn y dyfodol ceisio cynnal maint gweithlu'r staff cymorth.
- Arweiniodd y tâl isel sydd ar gael i weithwyr cymorth at broblemau canfyddiad a recriwtio a oedd yn cael effaith negyddol ar ddatblygu'r gweithlu.
- Mae llawer o'r staff cymorth yn credu eu bod yn 'cyflawni llawer o'r tasgau sydd wedi'u priodoli i athrawon ond am gyfran fechan o'r cyflog' (t120).
- Roedd proffil cyffredinol cymwysterau staff cymorth yn isel â lleiafrif â chymhwyster hyd at Lefel 4.
- Roedd hyfforddiant sylfaenol y staff cymorth yn ddigonol ond roedd y datblygiad proffesiynol yn gyfyngedig.
- Roedd y cyllid annigonol ar gyfer ysgolion yn cyfyngu ar y niferoedd a allai fod yn cael dod yn CALU.
- Roedd arfarnu'r staff yn anghyson ac roedd y ffaith nad oedd yno neu ei fod yn aml yn anffurfiol ei natur, yn atgyfnerthu'r canfyddiad bod staff cymorth yn 'weithlu achlysurol'.
- Roedd effaith staff cymorth yn cael ei chydabod ond yn anaml iawn y câi ei mesur.

1.23 O ran y potensial i gael strwythur cenedlaethol ar gyfer staff cymorth, cyflwynwyd yr ystyriaethau canlynol yn yr adroddiad:

- Roedd teimlad ymhlith rhai grwpiau os bydd strwythur cenedlaethol yn mynd i gael ei ddatblygu, dylai gynnwys yr holl staff cymorth.
- Dylai ganiatáu hyblygrwydd yn unol â hanes ac amodau lleol.

- Roedd modd cyflwyno achos dros drefniadau mwy ffurfiol a safonedig ar gyfer gwerthuso a rheoli perfformiad.
- Byddai datblygu llwybrau gyrfaedd yn codi lefel cymhelliant y staff a gellir ei gysylltu ag ennill cymwysterau.
- Dylid mynd i'r afael â lefelau tâl, o bosib drwy gymharu â rolau tebyg mewn sectorau eraill yn yr economi; a gellid ystyried graddfeydd tâl cenedlaethol ar gyfer rhai rolau.
- Yr angen dybryd i fynd i'r afael ag anghydbwysedd rhwng y rhywiau.
- Gallai undeboli rhai rolau yn orfodol helpu i wella tâl ac amodau'r staff.
- Dylid ymgymryd ag ail-werthusiadau swyddi yn rheolaidd, yn enwedig yn wyneb newid technolegol ac ad-drefnu ysgolion.
- Hawl i gael hyfforddiant cychwynnol a datblygiad proffesiynol parhaus.
- Yr angen am farchnata da i helpu'r recriwtio i rai rolau staff cymorth.
- Ni ddylai Strwythur Cenedlaethol effeithio ar amodau gwaith athrawon neu broffesiynau eraill. (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008b t121-122).

1.24 Yn y pen draw, penderfynodd Llywodraeth Cymru barhau â chytundebau statws sengl awdurdodau lleol ar gyfer y staff cymorth ac nid i fabwysiadu cytundebau cenedlaethol.

1.25 Yn 2013 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun gweithredu ar staff cymorth ysgolion.² Cydnabu hyn mor bwysig oedd hi bod pob un o'r staff cymorth yn 'gallu cael cymorth a hyfforddiant priodol gan gynnwys llwybrau dilyniant' a'r rheidrwydd bod cymwysterau hyfforddiant cychwynnol a phellach yn addas i'r diben. Byddai modd sicrhau hyn drwy 'Broses Ymarfer, Adolygu a Datblygu' a fyddai'n canolbwyntio ar safonau proffesiynol, rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol parhaus (Llywodraeth Cymru, 2013b: 3).

1.26 Fe wnaeth y cynllun restru'r camau gweithredu a gymerid ar y canlynol:

- cymwysterau
- safonau proffesiynol

² [Cynllun Gweithredu i hyrwyddo rôl a hybu datblygiad staff cymorth mewn ysgolion yng Nghymru](#)

- rôl CALU (Cynorthwywyr Addysgu Lefel-Uwch)
- rhaglen gynefino staff cymorth
- rheoli perfformiad
- datblygiad proffesiynol parhaus
- cofrestru'r gweithlu yn broffesiynol
- gwella data'r gweithlu

- 1.27 Cafodd rhai elfennau o'r cynllun gweithredu eu cynnwys ym Mil Addysg Cymru (2013) gan gynnwys sefydlu'r CGA yn 2015 i olynu Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Rhoddwyd y grym i'r CGA fynnu bod staff cymorth, am y tro cyntaf, yn cofrestru gyda chorff proffesiynol.
- 1.28 Yn 2017 fe wnaeth y CGA arolwg o'i weithlu cofrestredig gan gynnwys staff cymorth.³ O ran lleoli a defnyddio, dwedodd mwyafrif mawr y staff cymorth a wnaeth ymateb eu bod yn ymwneud â chymorth un-i-un ar gyfer disgyblion, gwaith grŵp a chefnogi dysgwyr ag anghenion penodol, megis y rheiny ag ADY neu broblemau ymddygiad. Roedd y rhan fwyaf o'r staff a wnaeth ymateb wedi ymgymryd â rhyw fath o ddysgu proffesiynol yn ystod y 12 mis diwethaf; yn bennaf drwy fynd ar gyrsiau, gweithdai a chynadleddau ac fe wnaeth tua thraean rannu arfer dda. Roedd 14% o'r ymatebwyr heb gymryd rhan yn unhryw ddysgu proffesiynol yn ystod y 12 mis blaenorol. Roedd bron hanner (45.4%) yr ymatebwyr heb dderbyn adolygiad rheoli perfformiad erioed gan gynnwys un yn ystod y 12 mis diwethaf.
- 1.29 Ni fydd Estyn yn adrodd yn uniongyrchol ar waith staff cymorth ysgolion. Fodd bynnag, bydd adroddiadau arolygiadau ysgolion yn ystyried yr effaith y gallai staff cymorth ei chael ar addysgu a safonau a chaiff y rhain eu crynhoi weithiau yn adroddiadau blynyddol y Prif Arolygydd. Mae'r cyfeiriadau hyn yn awgrymu lle y bydd staff cymorth yn rhan o waith cynllunio gwersi mewn ysgolion cynradd, gall hyn arwain at ganlyniadau da o ran cyrhaeddiad disgyblion ond, yn y nifer fach o ysgolion cynradd lle na fydd yr adnoddau'n cael eu rheoli'n dda, nodweddi o'r diffygion hyn oedd y gorddefnydd ar staff cymorth (Estyn 2015 a 2017).

³ [Arolwg Cenedlaethol CGA Cyngor y Gweithlu Addysg](#)

- 1.30 Cafodd archwiliad o'r Cyfnod Sylfaen fod y staff cymorth weithiau'n cael eu defnyddio i gefnogi gwaith rheoli'r ystafelloedd dosbarth yn hytrach nag i gefnogi'r safonau addysgu ac nad oedd ganddyn nhw weithiau lefel y sgiliau llythrennedd neu rifedd i gael cefnogi dysgu'r disgyblion. O ganlyniad, fe wnaeth yr adroddiad rybuddio bod 'ansawdd yr oedolyn yn bwysicach na'r nifer' (Siraj, 2014: 87)
- 1.31 Canfu gwerthusiad o'r Cyfnod Sylfaen a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru nad oedd yn ymddangos bod unrhyw arwyddion bod cynyddu'r cymarebau plant-oedolion yn cael effaith fawr ar gyrhaeddiad disgyblion erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen. Ond roedd yn awgrymu pan fyddai'r staff cymorth wedi cyrchu'r cyfleoedd dysgu proffesiynol llawn a oedd ar gael iddyn nhw, bod eu dealltwriaeth a'u gweithredu o bedagogeg y Cyfnod Sylfaen yn well. Gellid tybied felly y gallai mwy o ddatblygu staff cymorth yn broffesiynol fod wedi arwain at ganlyniadau academiaidd gwell ymhlith y disgyblion 2014 a 2015).

Ymchwil a Thystiolaeth o'r Alban

- 1.32 Canfu ymchwil a wnaed ar gyfer doethuriaeth ar effaith staff cymorth yn ysgolion cynradd yn yr Alban fod disgyblion yn gyffredinol yn teimlo eu bod yn cael mwy o gefnogaeth pan fyddai'r staff hyn yn bresennol yn yr ystafelloedd dosbarth ac y byddai modd sicrhau'r canlyniadau gorau pan fyddai'r athrawon a'r staff cymorth yn cydweithio i ddewis dulliau addysgol (Stewart, 2009).
- 1.33 Ymgwymerodd ymchwilwyr yn yr Alban ag arolwg cenedlaethol yn 2013 o 2,000 o benaethiaid, athrawon a chynorthwyr ystafell ddosbarth. Cafodd yr ymchwil ei gefnogi gan gyfweiliadau â bron pob un o Gyfarwyddwyr Addysg yr awdurdodau lleol, er mwyn casglu tystiolaeth ar rôl staff cymorth yn yr ysgolion. Cafodd fod y rhan fwyaf o'r staff cymorth yn cynorthwyo'r athrawon yn eu gwaith hwythau ond bod rôl rhai o'r staff wedi'i 'hymestyn' i gynnwys gweithgareddau a fwriadwyd yn wreiddiol ar gyfer athrawon. Daeth i'r casgliad i ffiniau'r rolau fynd yn aneglur am nad oedd y llywodraeth wedi gweithredu ar bolisi (Warhurst et al, 2014).

2. Methodoleg

- 2.1 Er mwyn mynd i'r afael â nodau ac amcanion yr ymchwil, cafodd ffordd ddulliau cymysg ei dylunio wedi trafod gyda'r grŵp llywio gwerthuso a oedd wedi'i ffurfio o swyddogion ymchwil a pholisi cymdeithasol Llywodraeth Cymru ac ymchwilwyr o Brifysgol Metropolitan Caerdydd.
- 2.2 Fe wnaeth dosbarthu arolwg o staff cymorth i bob ysgol gynradd yng Nghymru alluogi barnau'r gweithlu staff cymorth ehangach i gael eu casglu; cytunwyd hefyd bod angen mwy o drafodaethau dwys i gael casglu gwybodaeth gyfoethog ar y rolau roedd pobl yn gofyn i'r staff cymorth eu gwneud.
- 2.3 Cytunwyd hefyd y dylid chwilio am farn rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys y Consortia Addysg Rhanbarthol, Estyn, awdurdodau lleol, Cyngor y Gweithlu Addysg, cymdeithasau penaethiaid, ac undebau llafur y staff cymorth. Fe wnaeth awdurdodau lleol (drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) ac undebau llafur y staff cymorth gynorthwyo i godi ymwybyddiaeth o'r arolwg a'i ddosbarthu i'r ALI ac i'r aelodau.
- 2.4 Yn y pen draw, cytunodd y grŵp llywio gwerthuso ar y dulliau ymchwil canlynol:
- adolygu'r llenyddiaeth
 - arolwg ar-lein
 - cyfweiliadau rhanddeiliaid
 - grwpiau ffocws
 - ymweliadau astudiaethau achos ag ysgolion

Adolygu'r Llenyddiaeth

- 2.5 Gwnaed chwiliadau ar gyfer astudiaethau cymwys ar gronfeydd data EBSCO, ERIC a Google Scholar. Defnyddiwyd hidlyddion i adnabod astudiaethau a oedd yn arbennig o berthnasol i gyd-destun ymarfer y DU.
- 2.6 Cafodd dogfennau polisi oddi wrth Lywodraeth Cymru, Adran Addysg y DU a Chyngor y Gweithlu Addysg eu hystyried hefyd ynghyd â thystiolaeth arolygiadau Estyn.

Arolwg Ar-Lein

- 2.7 Datblygwyd arolwg ar-lein mewn ymgynghoriad â'r grŵp llywio gwerthuso. Cafodd yr arolwg ei beilota a gwnaed mân newidiadau cyn iddo gael ei anfon i'r ysgolion.
- 2.8 Cafodd arolwg ar-lein a oedd yn chwilio am farn penaethiaid ei ddosbarthu ar ebost i 1,260 o ysgolion cynradd yng Nghymru ar gyfer sylw'r pennaeth. Anfonwyd negeseuon atgoffa yn rheolaidd ar ebost yn uniongyrchol a thrwy gyfrwng cylchlythyr Dysg.
- 2.9 Fe wnaeth 176 o benaethiaid gwblhau'r arolwg a chafwyd ymateb oddi wrth ysgolion ym mhob awdurdod lleol ar draws Cymru. Roedd y rhan fwyaf o'r ysgolion a wnaeth ymateb yn ysgolion cyfrwng Saesneg (65%), 26% yn ysgolion cyfrwng Cymraeg a 7% yn ysgolion dwyieithog. Mae rhagor o wybodaeth ar gyfraddau ymateb ac ysgolion ar gael yn Atodiad 1.
- 2.10 Anfonwyd arolwg ar-lein yn gofyn am farn y staff cymorth ar ebost i benaethiaid cynradd yn gofyn iddyn nhw ei drosglwyddo i'w staff cymorth i'w gwblhau. Yn ogystal, fe wnaeth dau o undebau llafur y staff cymorth (UNISON a'r GMB) ei ddosbarthu i'w haelodau. Cafodd manylion yr arolwg a gwe-ddolen i'r arolwg eu cynnwys yng nghylchlythyr Dysg hefyd ac ar y cyfryngau cymdeithasol.
- 2.11 Cwblhawyd yr arolwg gan 560 o staff cymorth a chafwyd ymatebion o 21 o'r 22 ardal awdurdod lleol. Mae rhagor o fanylion ar y rheiny a wnaeth ymateb ar gael yn Atodiad 2.

Cyfweliadau Rhanddeiliaid

- 2.12 Gwnaed y rhain gyda chynrychiolwyr enwebedig
- Estyn
 - Consortia Addysg Rhanbarthol
 - NAHT yng Nghymru
 - Swyddogion Llywodraeth Cymru
 - Grŵp o staff AD yr awdurdodau lleol
 - Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
 - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

- UNISON
- GMB
- Cyngor y Gweithlu Addysg

2.13 O ran y Consortia Addysg Rhanbarthol, yn y cyfweiliadau roedd swyddogion y Consortia yn arwain ar waith datblygiad proffesiynol gyda staff cymorth, gan gynnwys staff ysgol ar secondiad a chynrychiolwyr y staff cymorth.

Grwpiau Ffocws

2.14 Yng Nghonsortium Canolbarth y De, gwahoddwyd penaethiaid pum ysgol a adnabuwyd gan y Consortium yn enghreifftiau o fannau lle roedd ymarfer effeithiol yn digwydd, i ddod i grŵp ffocws. Fe ddaeth dau i'r grŵp: un o ysgol arbennig fawr a'r llall o ysgol drefol mewn dalgylch economaidd-gymdeithasol cymysg.

2.15 Yn GCA, gwahoddwyd penaethiaid pum ysgol a adnabuwyd gan y Consortium yn enghreifftiau o fannau lle roedd ymarfer effeithiol yn digwydd i ddod i grŵp ffocws. Fe ddaeth tri i'r grŵp: un o ysgol mewn rhan ddigon cefnog o ddinas; un o ardal o dan anfantais economaidd-gymdeithasol sylweddol yn yr un ddinas; a'r trydydd o ardal wledig/drefol gymysg yn y rhanbarth.

2.16 Yn ERW, trefnwyd grŵp ffocws o naw person gan y Consortium i gynrychioli staff uwch ysgolion a CALU a oedd yn ymwneud â datblygu eu llwybrau dysgu proffesiynol ar gyfer staff cymorth ysgolion.

2.17 Bu rhaid dileu cyfarfod grŵp ffocws rhanbarth GwE am fod y tywydd yn dwyllodrus ar y diwrnod a drefnwyd. Nid oedd yn bosib ad-drefnu'r sesiwn oherwydd problemau amserlennu ac argaeledd y cyfranogwyr.

Ymweliadau Astudiaethau Achos

2.18 Adnabuodd pob Consortium bum neu chwe ysgol yn eu rhanbarth lle roedd ymarfer effeithiol yn digwydd, a oedd yn cynrychioli cymysgedd o newidynnau economaidd-gymdeithasol, maint a chyfrwng Cymreag / Saesneg. O'r rhestri hyn cytunodd y tîm ymchwil a Llywodraeth Cymru ar sampl i sicrhau cymysgedd eang, a chysylltwyd â dwy ysgol ym mhob rhanbarth. Ymgwymerwyd ag ymweliadau i'r ysgolion yn rhanbarthau CCD, GCA ac ERW ond bu rhaid dileu'r ymweliadau ag ysgolion GwE

oherwydd y tywydd a nodwyd uchod o ran y grwpiau ffocws. O ganlyniad, cynhaliwyd y cyfweiliadau gyda'r ysgolion yn y rhanbarth hwn dros y ffôn yn lle hynny.

- 2.19 Ar gyfer pob un o'r ysgolion astudiaeth-achos, cafodd ystod o staff eu cyfweld gan gynnwys y pennaeth/dirprwy bennaeth, staff addysgu a'r staff cymorth.

Dadansoddi'r Cyfweiliadau

- 2.20 Cafodd pob un o'r cyfweiliadau eu recordio a'u trawsgrifio. Cafodd cyfres o godau, yn seiliedig ar y cwestiynau ymchwil y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru, eu hadnabod i roi fframwaith dadansoddol.
- 2.21 Wedi darllen y trawsgrifiadau'n llawn i ddechrau er mwyn sefydlu eu hystyr a'u barn yn gyffredinol, cawson nhw eu dadansoddi'n thematig gan ddefnyddio'r codau hyn i gynhyrchu cronfa dystiolaeth y gellid ei hadlewyrchu yn y canfyddiadau ar bob un o'r cwestiynau ymchwil.

3. Canfyddiadau

- 3.1 Bydd yr adran hon yn adrodd ar ganfyddiadau'r adolygiad o'r llenyddiaeth, yr arolygon ar-lein a'r gwaith maes ansoddol o ran tair prif faes yr ymchwil: lleoli a defnyddio, dysgu proffesiynol ac effaith staff cymorth yn yr ysgolion cynradd yng Nghymru.

Lleoli a Defnyddio

Tystiolaeth Ymchwil sy'n bodoli eisoes

- 3.2 Mae'r adolygiad o'r llenyddiaeth a nodir yn adran 1 yr adroddiad hwn yn caniatáu dod i'r casgliadau canlynol o ran lleoli a defnyddio staff cymorth:

- Yn aml ni fydd wedi'i gynllunio'n briodol nac yn strategol yn llawer o'r ysgolion.
- Mae gwaith staff cymorth wedi ehangu'n sylweddol, wedi dod yn fwy amrywiol ac yn aml maen nhw heb fod wedi'u paratoi'n briodol ar gyfer y rolau hyn.
- Ni ddylid gor-ddefnyddio staff cymorth na'u defnyddio mewn ffyrdd amhriodol, o'i gymharu ag athrawon.
- Dylen nhw ychwanegu gwerth i ddysgu a datblygiad disgyblion a pheidio â chael eu defnyddio yn lle rôl yr athro.
- Ni ddylen nhw gael eu gor-ddefnyddio yn enwedig wrth gynorthwyo disgyblion isel eu cyrheaddiad.
- Y ffordd fwyaf effeithiol i'w defnyddio yw ar gyfer gwaith un-i-un a chymorth i grwpiau bach gan ddefnyddio ymyriadau ar sail tystiolaeth.
- Dylen nhw gynllunio ar y cyd ag athrawon a chael adborth yn rheolaidd, ond prin iawn yw'r enghreifftiau lle y bydd hyn yn digwydd.

Twf

- 3.3 Fel yr esboniodd llawer o'r rheiny a gafodd eu cyfweld yn ystod yr ymchwil hwn, roedd y twf cychwynnol yn nifer y staff cymorth yng Nghymru yn gynnar yn yr 21^{ain} ganrif yn bosib wrth i fenywod (llawer ohonyn nhw'n famau neu'n berthnasau plant mewn ysgol) 'wirfoddoli' i ymgymryd â gwaith rhan-amser yn yr ysgol cyn cael rhywfaint o hyfforddiant galwedigaethol sylfaenol. Fe wnaeth hyn arwain at y

cysyniad poblogaidd bod y rhain yn 'fyddin y mamau' a oedd wedi 'cerdded oddi ar y strydoedd' i weithio yn yr ysgolion.

- 3.4 Mae Tabl 2 a 3 yn crynhoi'r ymatebion i arolwg y Penaethiaid ac maen nhw'n dangos bod y rhan fwyaf o'r ysgolion (77%) a oedd wedi ymateb yn defnyddio arian grant i gyflogi rhai o'u staff cymorth.

Tabl 2: Canran y staff cymorth a gyflogir yn gyfan gwbl drwy ddefnyddio arian grant

Canran y staff cymorth	% yr ymateb
0 (dim)	23%
1-25	37%
26-50	16%
51-75	15%
76-100	9%
Cyfanswm	100%

Ffynhonnell: Arolwg Penaethiaid, n = 163

Tabl 3: Canran y staff cymorth a gyflogir drwy ddefnyddio elfen o arian grant gydag arian ychwanegol o rywle arall

Canran y staff cymorth	% yr ymateb
0 (dim)	15%
1-25	63%
26-50	12%
51-75	6%
76-100	0%
Byth	4%
Cyfanswm	100%

Ffynhonnell: Arolwg Penaethiaid, n = 163

- 3.5 Adroddodd 89% o'r ysgolion a wnaeth ymateb i arolwg y penaethiaid iddyn nhw ddefnyddio rhywfaint o'u dyraniad o'r Grant Datblygu Disgyblion i ariannu staff cymorth, ar gyfer gwaith ymyrryd penodol fel arfer gyda grwpiau targed penodol a allai gynnwys disgyblion a fydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.
- 3.6 Dangosodd yr ymatebion i arolwg y staff cymorth ar nodweddion y staff cymorth (Atodiad 2) fod:
- y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (78%) yn gweithio ers 5 mlynedd neu fwy yn weithiwr cymorth a bod 25% wedi'u cyflogi yn y rôl ers dros 16 mlynedd.
 - dros hanner (tua 55%) wedi gweithio mewn un ysgol yn unig a bod tua 9% wedi gweithio mewn 5 ysgol neu fwy.
 - y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (65%) yn gweithio ers 5 mlynedd neu fwy yn eu hysgol bresennol a bod 16% yn gweithio ers 16 mlynedd neu fwy.
- 3.7 Yn gyffredinol bydd hyn yn awgrymu bod y gweithlu wedi dod yn un cymharol sefydlog â'r rhan fwyaf o'r staff wedi bod yn gweithio fel staff cymorth am gyfnod cymharol hir yn eu hysgol bresennol.

Cymhelliant

- 3.8 Pan ofynnwyd am y rhesymau pam y daethon nhw'n weithwyr cymorth, dwedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (34%) iddyn nhw fwynhau 'cynorthwyo cydweithwyr i ddatblygu dysgu'r disgyblion'. Y cyfle i gael 'cydbwysedd gwaith/bywyd' oedd y rheswm mwyaf poblogaidd nesaf a wnaeth ddenu 27% o'r ymatebion (gweler Atodiad 3).
- 3.9 Gofynnodd yr arolwg hefyd i ymatebwyr roi eu hymatebion nhw eu hunain o ran eu cymhellion dros ymgymryd â'u rôl. Fe wnaeth 50 o'r 460 o ymatebwyr ymateb i hyn. Dangosodd yr ymatebion yr un awydd galwedigaethol gref i gefnogi plant yn eu dysgu a'r cydbwysedd gwaith/bywyd y mae'r rôl yn ei ganiatáu.

Rolau

- 3.10 Cafodd cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen effaith sylweddol ar ddatblygiad rôl staff cymorth yn yr ysgolion cynradd. Fe wnaeth un Swyddog Consortia, cyn-brifathro, ddwyn i gof sut y daeth staff cymorth i 'ymwneud mewn ffordd fwy rhagweithiol mewn addysgu grwpiau bach, asesu gwaith disgyblion, ac nid paratoi ar gyfer gwersi a chefnogi'r athro yn unig'. Arweiniodd hyn hefyd yn yr ysgolion cynradd mwy o faint at ddatblygiad yr hyn a ddisgrifiwyd fel 'hierarchaeth' o staff cymorth â rhai o'r staff yn canolbwyntio'n llwyr, er enghraifft, ar ymyriadau ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.
- 3.11 Fe wnaeth y staff cymorth a gyfwelwyd yr un sylwadau, ac fe nododd un sut y daeth yn 'wirioneddol ymwybodol o'r cwricwlwm a'r amcanion dysgu tra cyn hynny eu gwaith oedd gwneud yn siŵr bod pob un o'r adnoddau ar gael' (aelod staff cymorth cynradd, ERW).
- 3.12 Mae'r ymatebion a dderbyniwyd yn arolwg y staff cymorth ac arolwg y penaethiaid yn adlewyrchu cymaint y gwnaeth y newidiadau hyn ddylanwadu ar leoli a defnyddio cyfredol y staff cymorth. Fel y gwelir yn Nhabl 4, fe wnaeth nifer fawr o'r staff cymorth nodi eu bod yn 'gweithio gyda grwpiau bach o ddysgwyr' ac yn 'cefnogi dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol neu broblemau ymddygiad'.

Dilynwyd hyn yn agos gan weithgareddau eraill yn yr ystafell ddosbarth (cymorth un-i-un a dosbarth-cyfan) a chyfraniadau allgyrsiol.

Tabl 4: Pa fath o waith a ofynnir i chi ei wneud yn eich rôl yn weithiwr cymorth dysgu?

Ymateb	%
Gweithio gyda grwpiau bach o ddysgwyr	88%
Cefnogi dysgwyr a fydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu broblemau ymddygiad	87%
Gwaith un-i-un gyda'r dysgwyr	81%
Cymorth i ddosbarth cyfan â'r athro'n bresennol	78%
Cyflawni neu gynorthwyo â gweithgareddau allgyrsiol y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn yr ysgol neu ar dripiâu	73%
Cynllunio a chofnodi gwaith ar gyfer dysgwyr yn yr ystafell ddosbarth	67%
Rheoli anghenion gofal meddygol a lles y dysgwyr	66%
Gwaith gweinyddol sydd heb fod yn perthyn i'm gwaith yn yr ystafell ddosbarth	31%
Rolau eraill (rhowch fanylion)	30%
Cefnogi dysgwyr/rhieni/gwarcheidwaid aml-ethnigrwydd y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt	27%
Rôl benodol yn cysylltu â rhieni neu warcheidwaid neu'r gymuned leol	22%

Ffynhonnell: Arolwg staff cymorth ar-lein, n= 517 (caniatwyd ymatebion lluosog)

3.13 Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr ddangos ystod y gweithgareddau a wnaed yn rhan o weithgareddau 'eraill' ar wahân i'r opsiynau dewis-lluosog (Atodiad 6), cafwyd 149 o ymatebion ychwanegol sy'n dangos ystod y gweithgareddau a wneir gan staff cymorth yn yr ysgolion cynradd. Er bod cwestiwn penodol ynglŷn â hyn (gweler 3.16), cafwyd ymateb arwyddocaol iawn yn ymwneud â PCA a chyflenwi dosbarthiadau heb fod athro'n bresennol. Roedd ymatebion eraill yn amrywio o fod yn llyfrgellydd hyd at fod yn Arweinydd Ysgol y Goedwig ac 'arwain gwasanaeth unwaith yr wythnos'.

3.14 Cafwyd ymatebion tebyg i'r tri ymateb mwyaf poblogaidd yn yr ymateb i arolwg y penaethiaid sydd wedi'i grynhoi yn Nhabl 5.

Tabl 5: Pa fath o waith rydych chi'n gofyn i'ch staff cymorth ei wneud?

Ymateb	% yr ymatebion
Gweithio gyda grwpiau bach o ddysgwyr	100%
Cefnogi dysgwyr a fydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu broblemau ymddygiad	98%
Gwaith un-i-un gyda'r dysgwyr	97%
Rheoli anghenion gofal meddygol a lles y dysgwyr	78%
Cymorth i ddosbarth cyfan â'r athro'n bresennol	78%
Cyflawni neu gynorthwyo â gweithgareddau allgyrsiol a gweithgareddau eraill y tu allan i'r ystafell ddosbarth	57%
Cynllunio a chofnodi gwaith ar gyfer dysgwyr yn yr ystafell ddosbarth	47%
Gwaith gweinyddol sydd heb fod yn perthyn i'r gwaith yn yr ystafell ddosbarth	31%
Cefnogi dysgwyr/rhieni/gwarcheidwaid y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt	24%
Rôl benodol yn cysylltu â rhieni neu warcheidwaid neu'r gymuned leol	23%
Rolau eraill	14%

Ffynhonnell: Arolwg Penaethiaid; n= 176 (caniatwyd ymatebion lluosog)

3.15 Yn gyffredinol, adroddodd y penaethiaid mai'r defnydd mwyaf ar staff cymorth oedd cefnogi dysgwyr mewn grwpiau neu'n un-i-un, gydag ADY a phroblemau ymddygiad, pob un ar gyfradd ateb dros 90%. Dangosodd y canlyniadau hefyd y byddai 78% o benaethiaid yn defnyddio'r staff cymorth ar gyfer cymorth dosbarth cyfan pan fyddai athro'r dosbarth yn bresennol ac adroddodd 47% y bydden nhw'n gofyn i staff cymorth fod yn rhan o waith cynllunio a chofnodi gwaith y dysgwyr.

- 3.16 Canfu'r arolygon hefyd bod y rhan fwyaf o'r GCD (84%) yn dweud bod pobl wedi gofyn iddyn nhw gynnig cymorth heb fod yr athro'n bresennol a dim ond lleiafrif (19%) o'r rhain oedd yn dweud iddyn nhw gael eu cyflogi yn CALU wrth wneud hyn. Cafodd hyn ei gefnogi gan y rhan fwyaf o'r ymatebion i arolwg y penaethiaid (74%) a ddwedodd eu bod nhw wedi gofyn i GCD gynnig cymorth heb fod athro'n bresennol. Dwedodd y penaethiaid fod 53% o'r GCD hyn yn cael eu cyflogi yn CALU. Roedd yr ymatebion hyn i'w gweld ar draws bron pob awdurdod lleol ac yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg a'r ysgolion cyfrwng Saesneg.
- 3.17 Dangosodd y cyfweiliadau gyda'r staff uwch yn yr ysgolion ystod y ffyrdd y bydd ysgolion yn lleoli ac yn defnyddio eu staff cymorth. Er enghraifft, dwedodd un ysgol eu bod yn defnyddio'u staff i gefnogi dosbarthiadau lle roedd angen rhywfaint o gymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol i gefnogi disgyblion a oedd ag awtistiaeth neu syndrom Down er enghraifft. Roedd staff cymorth hefyd yn rhoi cymorth i ddisgyblion am broblemau corfforol eraill yn gysylltiedig ag epilepsi, er enghraifft, lle roedd symudedd yn broblem ac roedd y staff cymorth hyn yn rhoi cynhorthwy a allai helpu gydag anghenion hylendid personol disgyblion.
- ‘Mae dau ddosbarth gennym sydd ag adnoddau ar gyfer anghenion cymhleth – gwybyddol ond anghenion cymhleth fel arfer. Mae plant gennym ag awtistiaeth, mae plant gennym â syndrom Down, mae plant gennym â gwahanol fathau o epilepsi, rhai problemau corfforol sydd wedi dod gyda'r epilepsi yn rhai plant, felly mae symudedd yn broblem. Nid yw cerdded o gwmpas yn amhosib iddyn nhw, ond ar adegau arbennig mae'n bosib na fyddan nhw'n ddigon cryf, ac efallai bydd rhaid iddyn nhw fod mewn cadair arbennig.’ (Pennaeth Ysgol Gynradd, rhanbarth Consortiwm Canolbarth y De)
- 3.18 Drwy ymgymryd â'r gwaith hwn roedd yr ysgol yn defnyddio staff cymorth ar lefelau gwahanol (gweler Tabl 1 uchod i gael gwybodaeth ar y lefelau hyn) gan gynnwys rhai staff Lefel 4 profiadol, ond staff Lefel 2 yn bennaf.
- 3.19 Bydd llawer o ysgolion yn defnyddio CALU i arwain y ddarpariaeth feithrin ac yna bydd athro'r Cyfnod Sylfaen yn arwain y ddarpariaeth dderbyn a meithrin yn gyffredinol. Datgelodd rhai penaethiaid a gyfwelwyd y gwnaed hyn am resymau

ariannol gan fod cyflog CALU yn fwy fforddiadwy o fewn eu cyllideb na chyflog athro. Defnyddir CALU eraill yn aml i gyflenwi dosbarthiadau athrawon yn ystod eu hamser cynllunio, paratoi a gweinyddu (PCA).

3.20 Cawsom ein hysbysu fod staff Lefel 3 yn cael eu defnyddio'n hyblyg ar draws eu hysgolion, gan ymgymryd â'u gwaith arferol yn y dosbarth ac, ar adegau eraill, yn cyflenwi ar gyfer staff a fydd yn absennol.

3.21 Fe wnaeth un pennaeth grynhoi'r hyblygrwydd a'r amrywiaeth hyn o ran lleoli a defnyddio staff cymorth fel a ganlyn:

'Maen nhw'n arwain mwy a mwy ar ymyriadau ar gyfer y plant ar draws ysgolion. Maen nhw'n gweithio gyda grwpiau o ddisgyblion ar strategaethau llythrennedd a rhifedd. Mae'r ysgolion ar draws ein rhanbarth yn defnyddio strategaethau ymchwil yn seiliedig ar dystiolaeth.... ac mae rôl arweiniol gan gynorthwyyr addysgu yng ngwaith cyflawni rhai o'r rhaglenni hyn. Ar adegau, byddan nhw'n arwain dosbarthiadau o ddisgyblion ar gyfer athrawon cyflenwi PCA ac weithiau, yn absenoldeb athrawon maen nhw'n arwain dosbarthiadau o ddisgyblion. Maen nhw'n arwain ar glybiau, gweithgareddau allgyrsiol ac yn mynd i mewn i'r gymuned â chryn nifer yn gweithio mewn rolau cyswllt teulu a meithrin.' (Pennaeth Ysgol Gynradd, rhanbarth GwE)

3.22 Datgelwyd yr hyblygrwydd a'r amrywiaeth hyn hefyd mewn cyfweiliad gan aelod o staff cymorth Lefel 3 yn un ysgol gynradd a roddodd y rhestr ganlynol o'i chyfrifoldebau:

- | | |
|--|--|
| • cefnogi'r addysgu a goleuo'r cynllunio | • asesiadau'r disgyblion |
| • cefnogi dysgu a lles y plant | • annog llais y dysgwr |
| • gwaith grŵp a gwaith unigol | • hybu meddylfryd twf |
| • grwpiau darllen | • rhedeg rhaglenni ymyrryd (ffoneg uniongyrchol, grwpiau gramadeg, adfer rhifau, grwpiau dal-i-fyny) |
| • gosod yr ystafell ddosbarth | • dyletswydd iard yr ysgol |
| • gwneud adnoddau | • cyflenwi dosbarthiadau eraill |
| • arddangos | • cyswllt â rhieni |

- mynd i HMS (amddiffyn plant, iechyd a diogelwch, diogelu data, ac ati) a chyfarfodydd staff
- cymryd rhan yn rhaglen datblygu staff cymorth
- mynd i gyfarfodydd rhwydweithio a rhannu syniadau

3.23 Fel yr amlinellwyd uchod, mae rhai staff cymorth yn ymwneud â chymorth un-i-un ar gyfer disgyblion gydag ADY. Yr awdurdod lleol fydd yn dal y cyllid a fydd ar ran y plant hyn a chaiff ei ddirprwyo i'r ysgolion. Fe'i collir, felly, os bydd y disgybl yn symud o'r ysgol. Adroddodd y staff cymorth, penaeithiad ac undebau'r staff cymorth fod staff cymorth, oherwydd yr ansicrwydd a'r diffyg parhad o ran cyflogaeth a oedd yn gysylltiedig â'r sefyllfaoedd hyn, yn amharod yn aml i ddibynnu'n gyfan gwbl ar y gwaith hwn ac i aros yn y swyddi hyn am ormod o amser.

3.24 Er bod y rhan fwyaf o'r staff cymorth yn fodlon ymgymryd â rolau a fydd yn golygu amrywiaeth o gyfrifoldebau, bydd nifer gynyddol yn treulio peth, neu hyd yn oed yn achos nifer fach eu hamser i gyd, yn gwneud gwaith arbenigol. Gall hyn gynnwys cymorth i ddisgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddyn nhw, yn arwain ar strategaethau lles disgyblion, dulliau ymddwyn, datblygu iaith a lleferydd, a gwaith cyswllt rhieni/teuluoedd.

3.25 Cafwyd enghraifft o'r gwaith arbenigol y bydd staff cymorth yn ei ddarparu weithiau gan un aelod o staff Lefel 3 a oedd wedi'i hyfforddi yn Gynorthwydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA). Roedd e'n rhoi cymorth cwnsela ar draws yr ysgol i unrhyw blentyn ag anghenion llythrennedd emosiynol.

'Gofynnwyd i fi a allwn ddod yn ELSA, sef Cynorthwydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol, yn gweithio'n agos gyda seicolegwyr addysg, felly ces i fy anfon i ffwrdd am flwyddyn i gael hyfforddiant a dyna ddaeth yn brif rôl i fi yn yr ysgol. Dw i ddim yn seiciatrydd addysg ond rwyf yn cynnig cwnsela ac rwyf yno os bydd angen ar gyfer y plant, ar gyfer unrhyw blentyn sydd ag anghenion llythrennedd emosiynol.' (Staff Cymorth Ysgol Gynradd, rhanbarth GCA)

3.26 Weithiau, fel y gwnaeth tystiolaeth gan Estyn a'r Consortia Addysg Rhanbarthol ei gadarnhau, gallai'r gwaith ymyriadau arbenigol hwn gynnwys staff cymorth yn

gweithio gyda grwpiau o ddisgyblion isel eu cyrhaeddiad, â'r staff cysylltiedig yn aml wedi'u cyllido'n llawn neu'n rhannol drwy'r Grant Datblygu Disgyblion. Nid yw'r arfer yma, fodd bynnag, yn adlewyrchu'r dystiolaeth ymchwil a'r cyngor a roddir gan Lywodraeth Cymru y byddai rhyddhau athrawon cymwys a phrofiadol iawn i weithio gyda'r disgyblion hyn yn ddefnydd mwy effeithiol ar yr arian.

Baich Gwaith

- 3.27 O dderbyn bod rolau staff cymorth wedi ehangu a bod y rolau hyn bellach mor amrywiol, nid yw'n syndod o bosib mai mwyafrif bach yn unig o'r ymatebwyr i arolwg y staff cymorth (46%) a gytunodd eu bod yn teimlo eu bod yn gallu ymdopi â'u baich gwaith cyfredol a lleiafrif eithaf mawr (39%) yn anghytuno. Mae'r canlyniadau llawn i'w gweld yn Nhabl 6.

Tabl 6: Lefel y cytuno â'r gosodiad 'Rwyf yn gallu ymdopi â'm baich gwaith presennol yn effeithiol o fewn fy oriau gwaith cytunedig'

Ateb	%	Cytuno/niwtral/anghytuno wedi'u cyfuno
Cytuno'n gryf	13%	Cytuno: 46%
Cytuno i raddau	33%	
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	15%	15%
Anghytuno i raddau	24%	Anghytuno: 39%
Anghytuno'n gryf	15%	
Cyfanswm	100%	

Ffynhonnell: Arolwg Staff Cymorth n= 452

- 3.28 Mynegodd un ymatebwr i'r arolwg staff cymorth y pryderon hyn ynglŷn â baich gwaith fel hyn:

'Bydda i'n cyflenwi PCA yn rheolaidd drwy'r ysgol, o'r Derbyn hyd at Flwyddyn 6. Bydd cymorth o ryw fath yn y dosbarth gan yr athrawon y byddaf yn eu cyflenwi, ond pan fydda i'n cyflenwi PCA, fydd dim cymorth gen i fynychaf, yn enwedig yn y grŵp blwyddyn y byddaf yn gweithio gyda nhw fel arfer. Gofynnir i ni gynnal clybiau ar ôl ysgol a fydd yn rhedeg wedi i'n rôl

gyflogedig orffen a hynny heb ddim tâl ychwanegol. Unwaith yr wythnos, gofynnir i ni fynd i gyfarfodydd y staff ac unwaith eto gall y rhain fynd awr neu ddwy dros eu hamser a thu allan i'n horiau contract ni. Erbyn hyn mae ein baich gwaith yn yr ysgol yn canolbwyntio'n fawr iawn ar gyflawni gwersi i blant yn hytrach na'u cefnogi yn unig" (aelod o staff cymorth ysgol gynradd, rhanbarth GCA).

Cynorthwyyr Addysgu Lefel Uwch

- 3.29 Fel y nodwyd uchod, yn rhan o Gytundeb Baich Gwaith 2003, caniatwyd i CALU o dan gyfarwyddyd a goruchwyliaeth rheolwr profiadol weithio am ran o'u hamser yn addysgu dosbarth llawn mewn dosbarthiadau meithrin a derbyn ac i gefnogi amser PCA yr athro. Nododd cynrychiolwyr Estyn fod CALU yn cael eu defnyddio mwy a mwy ar gyfer addysgu arbenigol pan fydd cymhwyster neu brofiad ganddyn nhw mewn meysydd yn y cwricwlwm. Yn yr un modd, rhoddodd rhai o'r Consortia Addysg Rhanbarthol wybod y bydden nhw'n defnyddio CALU ar gyfer gwaith arbenigol yn arwain ymyriadau lles gyda disgyblion.

'Y cytundeb pan roddwyd PCA ar waith oedd mai penderfyniad y pennaeth fyddai sicrhau bod y profiad a'r sgiliau addas gan y person a fyddai'n cymryd y dosbarth...ac ar yr ambell achlysur pan gân nhw eu defnyddio y bydd hynny am resymau pendant iawn. Cân nhw eu defnyddio ar gyfer celf, dweder, am fod profiad neu gymhwyster penodol ganddyn nhw mewn Celf, TG weithiau. Rwyf wedi'u gweld nhw'n cael eu defnyddio'n effeithiol iawn ar gyfer Addysg Gorfforol' (Arolygydd Ysgolion, Estyn)

- 3.30 Fe nododd rhai CALU fod eu gweithgaredd addysgu nawr yn aml yn ymestyn i gyd-destunau eraill gan gynnwys cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon yn hytrach na chyflogi athrawon cyflenwi. Yn un enghraifft, dwedodd CALU eu bod yn gweithio fel athro 75% o'u hamser ar draws nifer o ddosbarthiadau yn yr ysgol a'r 25% arall fel cynorthwyydd dosbarth ynghlwm wrth ddosbarth penodol.

'CALU yw fy rôl a dyna yw fy nhâl, rwy'n rhan o'r Tîm Rheoli Uwch yn yr ysgol. Bydd disgwyl i fi hefyd fod yn Gynorthwyydd Dosbarth amser llawn. Felly rwy'n glwm wrth ddosbarth drwy'r amser ar hyd yr wythnos hefyd.

Rwy'n cael fy nhalu fel CALU, Lefel 5 neu rywbeth fel'na sy'n cymharu â chyfradd athro heb gymhwyster ond, a dweud y gwir, dyw e ddim, dyw e ddim yn gweithio allan yr un peth. Felly, rwy'n teimlo weithiau fy mod yn gwneud llwyth enfawr o waith, rôl athro bron. Ar un adeg roeddwn yn addysgu 75% o'r wythnos, roedd 75% o'm hamser yn addysgu a dydych chi ddim yn cael eich cydnabod am hynny. Rydych chi'n dal i fod yn Gynorthwyydd Addysgu, chi'n gwybod.' (CALU Ysgol Gynradd, rhanbarth ERW)

- 3.31 Roedd un pennaeth wedi cyfiawnhau'r math yma o leoli a defnyddio'r CALU a'r rôl a allai fod ganddyn nhw yn arwain grwpiau o staff cymorth, gan ei fod yn galluogi'r staff addysgu i gael eu rhyddhau er mwyn ymgymryd â gweithgaredd dysgu proffesiynol:

'Yr hyn y bydd hyn yn ei wneud i'r ysgol, rwy'n credu, yw ei fod yn rhoi capasiti i'r ysgol. Bydd yn eich galluogi i ryddhau staff ar gyfer dysgu proffesiynol, rhyddhau athrawon ar gyfer dysgu proffesiynol, rhoi'r capasiti hwnnw i chi' (Pennaeth ar Secondiad, rhanbarth GwE).

Staff Cymorth a Rolau Addysgu

- 3.32 Fel y dangoswyd uchod, mae'r dystiolaeth oddi wrth arolwg y penaethiaid yn dangos fod tueddiad cynyddol i staff cymorth nad ydyn nhw'n CALU gael bod yn rhan o'r hyn a ystyrir fynychaf yn weithgaredd addysgu prif ffrwd. Nododd un aelod o'r staff cymorth fod hyn yn aml yn deillio o'r cynnydd ym maich gwaith athrawon fel y gallen nhw fod â 'sesiwn yn y prynhawn neu hanner awr yn y bore lle y byddan nhw'n dal i fyny ar y gweithgareddau allgyrsiol y bydd rhaid iddyn nhw eu cyflawni a'r gwaith papur'.
- 3.33 Nododd staff Adnoddau Dynol Awdurdod Lleol ac undebau llafur y staff cymorth y gofynnir yn gynyddol i staff cymorth gyflawni rolau a ddylid yn eu barn nhw fod yn cael eu cyflawni gan athrawon. Eu canfyddiad oedd fod hyn yn ganlyniad i'r staff hynny beidio â chael eu rheoli'n dda ar lefel ysgol. Cafodd hyn ei gadarnhau gan arolwg y staff cymorth lle y nododd 84% o'r ymatebwyr y gofynnwyd iddyn nhw gyflenwi dosbarth heb fod athro'n bresennol.

- 3.34 Cadarnhawyd gan yr ysgolion, y Consortia a chymdeithasau'r athrawon bod y defnydd 'amhriodol' o staff cymorth, ar wahân i CALU, bellach yn cynnwys enghreifftiau cyffredin ohonyn nhw'n cyflenwi absenoldebau athrawon yn hytrach na bod athrawon cyflenwi yn cael eu cyflogi i'r diben hwnnw. Dyma yn aml oedd canlyniad anawsterau cyllido mewn ysgolion a wnaed hyn yn ddewis mwy derbyniol.

Statws Cyflogaeth Staff Cymorth

- 3.35 Er nad oedd yn rhan o gylch gorchwyl yr ymchwil hwn i ystyried amodau gwasanaeth staff cymorth, mae i'r amrywiaeth eang yn rolau, cyfrifoldebau a lefelau cyflogaeth staff cymorth sydd wedi datblygu o ganlyniad i ddatblygiad anghyson, digynllun a chyflym iawn y gweithlu hwn, ganlyniadau anochel ar gyfer eu lleoli a'u defnyddio. Amlygwyd hyn gan dystiolaeth yn yr arolwg, y cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid a'r ymweliadau astudiaeth achos a'r grwpiau ffocws yn yr ysgolion.
- 3.36 Gofynnodd arolwg y staff cymorth i'r ymatebwyr roi manylion eu hamgylchiadau cyflogi a gellir gweld y canlyniadau yn Atodiad 4. Mae'r rhain yn dangos amrywiaeth sylweddol yn y lefelau a'r telerau cyflogi. Mae canran uchaf yr ymateb wedi'i amlygu ym mhob rhan o'r tabl, ond ar y cyfan roedd 51% o'r sampl wedi'u cyflogi ar gontract parhaol, felly gyda thâl gwyliau. Roedd 32% arall wedi'u cyflogi'n barhaol, ond yn ystod y tymor yn unig. Mae mwyafrif y staff cymorth (61%) wedi'u cyflogi'n amser llawn (35+ awr), ond mae hyn yn dal i adael llawer (39%) yn gweithio'n rhan-amser.
- 3.37 Roedd swyddogion undebau llafur staff cymorth yn anhapus ynglŷn â'r amrywiaeth yn rolau a chyfrifoldebau staff cymorth ac roedden nhw'n awyddus i weld ffordd fwy ffurfiol o fynd ati i ddelio â hyn yn genedlaethol.

'Y broblem fwyaf yw'r gwahaniaeth a'r anghysondeb o ran rolau, lleoli a defnyddio, lefelau, graddfeydd, dyletswyddau a fydd yn gysylltiedig â'r graddfeydd hynny. Mae'r peth yn llanast llwyr. Cafwyd ymrwymiad yng Nghytundeb Cymru'n Un i gael strwythur cenedlaethol ar gyfer staff cymorth ac rydyn ni [y ddau brif undeb] yn gytûn ar hyn. Rydyn ni'n dal i gredu mai dyna sydd ei eisiau. Strwythur sy'n gwneud synnwyr i chi o'r pen ac a fydd

wedyn yn cael ei weithredu ar lefel leol – nid rhywbeth y byddwn yn dod i ddeall beth fydd yn digwydd ar lefel leol cyn ceisio gwneud synnwyr ohono wedi hynny' (Swyddog Undeb).

- 3.38 Fe wnaethon nhw adrodd hefyd y gofynnid mwy a mwy i'w haelodau arwain dosbarthiadau cyfan gan nad oedd penaethiaid yn gallu cyfiawnhau hyn drwy gymal 'unrhyw ddyletswyddau eraill' yn nisgrifiadau swyddi safonol. Fe wnaeth staff AD Awdurdodau Lleol gadarnhau bod hyn yn wir a bod hyn yn ganlyniad i'r ffaith bod y disgrifiadau swyddi yn eang iawn, fel y gellir gweld yn y rheoliadau a amlinellir isod. Roedd cynnwys cymal a fyddai'n caniatáu ymgymryd ag 'unrhyw ddyletswyddau eraill' wedi galluogi rolau swyddi i lithro'n araf mor bell ag addysgu dosbarth cyfan hyd yn oed. Gan i'r disgrifiadau swyddi gael eu creu dros 15 mlynedd yn ôl, roedd datblygiadau yn y gweithlu wedi eu goddiweddud.
- 3.39 Awgrymodd sefydliadau'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld ar gyfer yr ymchwil hwn na fydd penaethiaid fel arfer yn siŵr sut i leoli a defnyddio eu staff cymorth yn y ffordd orau, bod diffyg arweiniad iddyn nhw yn hyn o beth a, fynyachaf, bydd rhaid iddyn nhw wneud eu penderfyniadau eu hunain. Arweiniodd hyn at y dryswch a oedd yn bodoli rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a'r Consortia ynglŷn â rolau, cyfrifoldebau, lefelau cyflogau a graddio.
- 3.40 Yn ôl un pennaeth, sydd ar secondiad gydag un o'r Consortia, gallai hyn arwain at sefyllfaoedd lle 'na fydd ysgolion am siarad â chi am leoli a defnyddio gan fod ofn arnyn nhw eu bod yn gwneud rhywbeth o'i le'. Dwedodd mai'r hyn y 'byddan nhw'n ei ddisgrifio'n aml yn swydd Lefel 4 a'u bod yn cael eu talu ar Lefel 1 neu Lefel 2 ac mae'n digwydd gan nad oes unrhyw arweiniad clir ynglŷn â hyn'.
- 3.41 Fe wnaeth yr ymchwil nodi hefyd bod rhai awdurdodau lleol yn ddiweddar wedi bod yn gwerthuso graddfeydd a chyflogau staff cymorth ac, o ganlyniad, collodd rhai staff cymorth rhywfaint o statws a chyflog.

Gwaith Tîm

- 3.42 Yn y cyfweiliadau gydag athrawon a staff cymorth cafwyd enghreifftiau o gynllunio ar y cyd yn digwydd rhyngddyn nhw o'r math a amlygwyd yn arfer effeithiol yn y llenyddiaeth ymchwil.

‘Bydd ein Cynorthwyrwyr Addysgu yn cwrdd â’r athrawon bob wythnos a byddan nhw’n cynllunio gyda’i gilydd; byddan nhw’n cwrdd hefyd i edrych ar bethau mae plant wedi’u gwneud er mwyn i’r Cynorthwyrwyr Addysgu gael rhoi adborth i’r athrawon. A bydd hynny’n digwydd bob wythnos. Caiff gwaith cynllunio’r athro ei roi ar yr hwb a bydd pob un o’r Cynorthwyrwyr Addysgu yn gallu cyrchu gwaith cynllunio’r athro er mwyn i’r gwaith hwnnw gael ei rannu, ac y gallan nhw edrych arno pryd y mynnan nhw. Fe wnaethon ni dipyn o waith gyda’n Cynorthwyrwyr Addysgu y llynedd. A bydd hynny’n digwydd ar draws yr ysgol i gyd, felly o’r meithrin hyd at Flwyddyn 6, bydd y Cynorthwyrwyr Addysgu yn cynllunio gyda’r athrawon ac yn gallu cyrchu’r gwaith cynllunio yna bob amser. [Athro Ysgol Gynradd, rhanbarth GCA].

3.43 Crybwyllwyd hyn hefyd gan staff cymorth pan ofynnwyd iddyn nhw roi ymatebion agored i’r arolwg. Ymhlith rhai o’r agweddau mwyaf cadarnhaol mae:

- ‘Gweithio mewn ysgol gynhwysol lle y caiff fy syniadau a’m barn eu gwerthfawrogi gan yr athrawon a’r pennaeth a chaiff fy sgiliau eu defnyddio’
- ‘Bydd pob aelod o’r staff yn cyfathrebu er mwyn sicrhau arfer dda’
- ‘Edrych ar lefel eu profiad a’u cymwysterau a’u defnyddio yn y ffordd orau posib’
- ‘Mae cyfathrebu da yn allweddol a bod â chefnogaeth o fewn y gweithle’
- ‘Rhoi’r plant yn gyntaf bob amser’
- ‘Cael bod yn rhan o gyfarfodydd y staff, yn gwybod pa rai yw’r newidiadau diweddaraf o ddydd i ddydd, cael eich gwerthfawrogi, pobl yn holi fy marn a’m syniadau’
- ‘Bod llais gan bob aelod o’r staff ac y bydd pobl yn gwrando ar eu syniadau ac yn eu hystyried, a chael bod yn rhan’

3.44 Dangosodd yr ymatebion agored nodweddion negyddol hefyd o’u profiad a gafodd eu hadnabod, gan gynnwys:

- ‘Dim yr amser ychwanegol i baratoi fel y bydd athrawon yn ei gael. Does dim disgwyl i fi wneud gwaith gartref ond rwyf yn gwneud hynny i fi gael gwneud fy ngwaith yn fwy effeithlon.’
- ‘Yn wythnosol, efallai gofynnir i fi gyflenwi dosbarth yn unrhyw grŵp blwyddyn am hyd at 3 diwrnod yn olynol! Gan nad oes fawr o arian yn y gyllideb, bydd hyn yn digwydd yn rheolaidd nawr. . . , gall fod angen cyflenwi yn fwy a mwy rheolaidd a bydd bob amser yn dod yn y pen draw aton ni. Yn aml bydd hyn yn golygu y caiff ymyriadau eu colli a bydd y plant y bydd eisiau'r cymorth mwyaf arnyn nhw ar eu colled.’
- ‘Pan gytunodd yr undebau ar rolau gwahanol gweithwyr cymorth, newidiodd ein disgrifiadau swydd, ond rwy'n teimlo bod diffyg dealltwriaeth yn yr ysgol o ran pa rolau y mae pob gweithiwr cymorth wedi'u cyflogi i'w gwneud.’
- ‘Mae contractau Goruchwylwyr Cyflenwi yn cael eu rhoi i GCD er mwyn iddyn nhw gael addysgu'n weithredol heb fod athro'n bresennol. Nid yw hyn yn arfer dda. Ni fydd contractau Goruchwylwyr Cyflenwi yn adlewyrchu'r dyletswyddau y gofynnir oddi wrth y staff. Rwy'n credu eu bod yn cael eu cam-ddefnyddio yn yr Ysgolion Cynradd. Dyma addysgu “y nesaf peth i ddim.”
- ‘Yn rhan o'm rôl bydd gofyn i fi gynllunio, adnoddau a chyflawni profiadau dysgu o safon uchel ar gyfer plant: mae hyn yn debyg i athro cymwysedig. Ond dw i ddim yn athro cymwysedig a chaiff athrawon cymwysedig amser i gynllunio. Bydd disgwyl i fi berfformio yr un cystal ag athro ond heb unrhyw amser yn cael ei neilltuo. Bydd angen dileu'r farn hanesyddol nad yw GCD yn gydradd ag athrawon cymwysedig er mwyn gwella statws a lles.’

Tystiolaeth arall

- 3.45 Roedd y dystiolaeth arall a gasglwyd ar leoli a defnyddio yn amlygu'r materion canlynol:

- Yn rhai enghreifftiau, adroddodd penaethiaid y bu rhaid iddyn nhw yn y blynyddoedd diwethaf, o ganlyniad i gyfyngiadau cyllidol, ostwng nifer y staff y byddan nhw'n eu cyflogi. Adroddodd 78% o'r ymatebwyr i arolwg y penaethiaid ostyngiad yn nifer y staff cymorth yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Roedd 47% o'r penaethiaid a ymatebodd yn disgwyl i'r gostyngiad hwn yn y niferoedd barhau yn y flwyddyn ysgol 2018-19.
- Fel y dangosodd y CGA, bellach ma mwy o staff cymorth nag o athrawon ar gofrestri asiantaethau cyflenwi.
- Fe wnaeth CGA amlygu'r ffaith bod athrawon cyflenwi ar eu cofrestr hefyd yn gweithio yn staff cymorth gan na fyddan nhw bob amser yn gallu cael cyfleoedd addysgu.
- Yn ôl UCAC, bydd ysgolion cyfrwng Cymraeg yn wynebu anawsterau wrth geisio cael hyd i staff cymorth a fydd â'r sgiliau priodol yn y Gymraeg.

Dysgu Proffesiynol

Tystiolaeth Ymchwil

3.46 Dangosodd y dystiolaeth ymchwil a adolygwyd ym mhennod 1 y nodweddion canlynol o ran dysgu proffesiynol presennol staff cymorth:

- Er bod canran gynyddol yn debygol o fod â chymwysterau L4+, mae'r rhain yn dal i fod yn y lleiafrif.
- Mae ymgymryd â datblygiad proffesiynol yn allweddol bwysig os bydd staff cymorth yn mynd i gael eu lleoli a'u defnyddio mewn ffyrdd priodol ac effeithiol gan ei fod yn eu galluogi i wella'r effaith y cân nhw ar ddisgyblion ac i ddatblygu eu proffil a'u hyder nhw eu hunain a'u hunan-werth.
- Fynychaf bydd staff cymorth yn ymgymryd â datblygiad proffesiynol am resymau personol yn hytrach na rhesymau gyrfadol gan ei bod yn bosib na fydd unrhyw gymhellion ariannol, cyfleoedd i gael dyrchafiad neu gyfleoedd i ddatblygu gyrfa i'w hysgogi.
- Weithiau bydd y tâl isel y bydd llawer o'r staff cymorth yn ei dderbyn, eu hunan-ganfyddiad i fod yn isel eu statws, a natur eu contractau yn cyfyngu ar eu hawydd i ymgymryd â datblygiad proffesiynol.

- Mae'r cyfleoedd i fanteisio ar ddatblygiad proffesiynol yn aml yn dibynnu ar agwedd arweinwyr unigol ysgolion.
- Er y bydd staff cymorth yn adrodd yn bositif yn aml ar y cyfleoedd hyfforddi a fydd ar gael iddyn nhw, bydd datblygiad proffesiynol ar lefelau uwch (y bydd ei angen arnyn nhw weithiau ar gyfer y rolau y gofynnir iddyn nhw eu cyflawni) yn aml ddim ar gael iddyn nhw gan gynnwys y rheiny a fyddai'n cynnig llwybr gyrfa a'r cyfle i gaffael cymwysterau ar lefelau uwch.

Cymwysterau

- 3.47 Mae Tabl 7 yn rhoi lefel bresennol cymwysterau staff cymorth yn seiliedig ar arolwg y staff cymorth. Gofynnwyd i'r GCD roi tic wrth ochr pob un perthnasol, felly mae'r tabl yn dangos cyfanswm y nifer sydd â phob lefel.
- 3.48 Yn yr arolwg, mae cymwysterau ar lefel gradd neu'n uwch gan 28%. Roedd lleiafrif yn y sampl (26%) wedi cwblhau'r cynllun CALU ac roedd Statws Athro Cymwysedig (SAC) gan nifer fach iawn (5%).

Tabl 7: Lefel cymhwyster y staff cymorth

Cymhwyster	%
Lefel Mynediad 1-3	16%
Lefel 1 - e.e. TGAU D-G, Bagloriaeth Cymru Sylfaen	11%
Lefel 2 - e.e. TGAU A*-C, Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol, Sgiliau Hanfodol	41%
Lefel 3 - e.e. Safon UG/U, Bagloriaeth Cymru Uwch, Mynediad i Addysg Uwch	53%
Lefel 4 - e.e. HNC, Tystysgrif Addysg Uwch	19%
Lefel 5 - e.e. Gradd Sylfaen, HND	14%
Lefel 6 – Gradd Anrhydedd, Tystysgrifau Proffesiynol Addysg Uwch	23%
Lefel 7 - e.e. Gradd Meistr, TAR	5%
Lefel 8 – Doethuriaeth	0%

Ffynhonnell: Arolwg Staff Cymorth, n= 516 (caniatwyd ymatebion lluosog)

- 3.49 Roedd diddordeb mawr i ennill cymwysterau ychwanegol a dwedodd 56% roedden nhw 'yn awyddus i ennill cymwysterau ychwanegol i gefnogi fy ngwaith yn GCD' a 31% arall yn dweud 'efallai' eu bod nhw, a lleiafrif yn unig (19%) yn ateb 'na'. Mae Atodiad 4 yn dadansoddi ymhellach y diddordeb i ennill cymwysterau ychwanegol.

Diddordeb y nifer fwyaf oedd dod yn CALU a chyfran uchel â diddordeb mewn cymwysterau ADY. Fe wnaeth nifer gymharol fach o weithwyr cymorth (dim ond saith) ddweud yn uniongyrchol bod diddordeb ganddyn nhw i symud ymlaen i SAC – er i 26 sôn am ennill gradd (heb sôn yn benodol am SAC) neu ‘CALU/SAC’.

- 3.50 Fe wnaeth y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a gyfwelwyd nodi lefel isel y cymwysterau addysgol yn gyffredinol a oedd gan y staff cymorth cyn dechrau yn eu swyddi. Ac felly roedd rhaid ymgymryd â datblygiad proffesiynol cychwynnol a oedd yn canolbwyntio ar sgiliau sylfaenol. Nododd y Consortia Addysg Rhanbarthol fod y sefyllfa hon a'r ystod eang o rolau, cyfrifoldebau a disgrifiadau swydd a oedd yn bodoli yn rhoi heriau sylweddol iddyn nhw wrth ddarparu dysgu proffesiynol priodol.

Dysgu Proffesiynol Cyfredol

- 3.51 Dangosodd arolwg y staff cymorth fod 71% wedi gwneud rhyw fath o ddysgu proffesiynol yn y 12 mis blaenorol. Mae'r mathau o weithgaredd a wnaed gan y staff hyn yn unig i'w gweld yn Nhabl 8.
- 3.52 Mae Tabl 8 yn dangos mai mynychu cyrsiau, gweithdai, cynadleddau, seminarau (gan gynnwys e-ddysgu) oedd y ffurfiau dysgu proffesiynol mwyaf amlwg (88% o'r rheiny a gymerodd ran). Fodd bynnag, roedd defnyddio rhyw fath o ddysgu ar-lein, gan gynnwys Hwb neu dechnolegau eraill, yn ail ar 42%. Wrth gyfuno â'r ymatebion i e-ddysgu mewn categorïau eraill, tanlinellir pwysigrwydd cynyddol dysgu i ddefnyddio technoleg. Roedd 39% a 35% o'r ymatebwyr wedi ymgymryd â'r ddwy haen debyg, sef gweithio gyda chydweithwyr yn yr ysgol i dderbyn adborth ar eu perfformiad neu rannu/dangos yr arferion gorau.

Tabl 8: Gweithgareddau dysgu proffesiynol a wnaed gan staff cymorth yn ystod y 12 mis blaenorol

Ymateb	%
Wedi mynychu cyrsiau, gweithdai, cynadleddau, seminarau (gan gynnwys e-ddysgu) wedi'u hariannu gan yr ysgol	88%
Mynediad i ac yn defnyddio Hwb neu rith-amgylchedd dysgu arall	42%
Wedi dysgu sut i ddefnyddio technolegau newydd i'w defnyddio mewn gweithgareddau dysgu ac addysgu	41%
Cydweithwyr wedi bod yn arsylwi'ch gwaith ac yn rhoi adborth i chi	39%
Wedi dangos/rhannu eich arferion gorau gyda phobl eraill	35%
Wedi gweithio ar rywbeth newydd (e.e. menter, prosiect, gweithgaredd, dysgu grŵp blwyddyn/pwnc newydd)	33%
Wedi darllen cyhoeddiadau, llyfrau, cyfnodolion, erthyglau (copi caled neu ar-lein) neu wedi ymchwilio i bwnc	33%
Wedi caffael sgiliau a gwybodaeth ychwanegol yn rhan o swydd neu rôl newydd	31%
Wedi arsylwi gwaith cydweithwyr neu wedi'u cysgodi	20%
Wedi astudio ar gyfer cymwysterau academiaidd (e.e. Tystysgrif Addysg Uwch)	16%
Wedi gweithredu yn fentor neu'n hyfforddwr i eraill	16%
Wedi derbyn cymorth oddi wrth fentor neu hyfforddwr	14%
Wedi gwneud gwaith ymchwil (nid ar gyfer cymhwyster)	10%
Arall (rhowch fanylion)	5%

Ffynhonnell: Arolwg staff cymorth, n= 352 (caniatwyd ymatebion lluosog)

3.53 Er i 33% o'r ymatebwyr ddangos eu bod wedi darllen cyhoeddiadau, llyfrau, cyfnodolion, erthyglau (copi caled neu ar-lein) neu eu bod wedi ymchwilio i bwnc, yn wyneb y blaenoriaethau sy'n datblygu yn addysg yng Nghymru, mae'n werth nodi'r ymateb isel iawn o 10% o'r ymatebwyr yn 'gwneud gwaith ymchwil'.

- 3.54 Mae Tabl 9 a 10 yn rhoi gwybodaeth oddi ar arolwg y staff cymorth ynglŷn â ble roedd y dysgu proffesiynol wedi digwydd a phwy oedd y darparwr. Mae'n werth nodi bod 80% o hyn yn yr ysgol a bod y darparwyr yn cynnwys staff ysgol, Consortia Addysg Rhanbarthol a darparwyr allanol, a'r staff ysgol (gan gynnwys rhai o ysgolion eraill) oedd y darparwyr mwyaf (86%).

Tabl 9: Ble roedd y dysgu proffesiynol yn digwydd?

Ymateb	%
Yn eich ysgol	80%
Mewn lleoliad o dan nawdd y consortia addysg rhanbarthol	36%
Mewn ysgol arall	28%
Mewn lleoliad o dan nawdd yr ALI	23%
Rhywle arall	14%

Ffynhonnell: Arolwg staff cymorth, n= 348 (caniatwyd ymatebion lluosog)

Tabl 10: Pwy oedd wedi cyflawni'r dysgu proffesiynol?

Ateb	%
Darparwr allanol	72%
Staff yr ysgol	56%
Staff o ysgol arall	30%
Consortia	25%
Arall	8%
Staff ALI	0%

Ffynhonnell: Arolwg staff cymorth, n= 348 (caniatwyd ymatebion lluosog)

- 3.55 Fel y gwelir yn nhabl 11, nododd y rheiny a wnaeth ymateb i arolwg y penaethiaid hefyd fod y rhan fwyaf (82%) o'r cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer staff cymorth

yn dod drwy gyfrwng cyrsiau, gweithdai, cynadleddau a seminarau, gan gynnwys defnyddio e-ddysgu. Roedd hyn yn cynnwys pwyslais penodol ar hyfforddiant ar gyfer defnyddio technolegau newydd (81%).

- 3.56 Yn yr un modd ag yn arolwg y staff cymorth, adnabuodd arolwg y penaethiaid mai'r lleoliad mwyaf cyffredin ar gyfer dysgu proffesiynol oedd yr ysgol, naill ai ysgol y penaethiaid eu hunain (98%) neu ysgol arall (70%). Cafodd lleoliadau consortia rhanbarthol eu defnyddio'n helaeth hefyd. Yn debyg i ymatebion y staff cymorth, cafodd Hwb ei ddefnyddio hefyd i hyfforddi gan 24% o benaethiaid. Awgrymodd cyfweiliadau gyda'r staff cymorth yn yr ysgolion, fodd bynnag, ei bod yn anodd yn aml iddyn nhw fod yn gallu bod â'r amser i arsylwi ymarfer effeithiol yn eu hysgolion nhw eu hunain ac mewn mannau eraill am fod eu contractau yn ei gwneud yn ofynnol iddyn nhw weithio'n amser llawn yn eu rôl.

Tabl 11: Pa weithgareddau dysgu proffesiynol y mae'r penaethiaid wedi'u darparu neu eu cyllido ar gyfer Gweithwyr Cymorth Dysgu (GCD) yn y 12 mis diwethaf?

Ateb	%
Wedi galluogi GCD i fynd ar gyrsiau, gweithdai, cynadleddau, seminarau (gan gynnwys e-ddysgu) wedi'u cyllido gan yr ysgol	82%
Wedi darparu hyfforddiant ar sut i ddefnyddio technolegau newydd mewn gweithgareddau dysgu ac addysgu	81%
Wedi galluogi GCD i gaffal sgiliau a gwybodaeth ychwanegol yn rhan o swydd neu rôl newydd	78%
Wedi galluogi GCD i weithio ar rywbeth newydd (e.e. menter, prosiect, gweithgaredd, addysgu pwnc/grŵp blwyddyn newydd)	75%
Mynediad i hyfforddiant a defnyddio Hwb	70%
Wedi darparu cyfleoedd i GCD ddangos/rhannu eu harferion gorau gydag eraill	64%
Wedi galluogi GCD i astudio ar gyfer cymwysterau academiaidd (e.e. Tystysgrif Addysg Uwch)	61%
Wedi darparu hyfforddiant ar gyrchu a defnyddio Hwb neu rith-amgylchedd dysgu arall	51%
Wedi darparu cyfleoedd i GCD gael arsylwi gwaith cydweithwyr neu eu cysgodi	44%
Wedi darparu cyfleoedd i GCD gael arsylwi gwaith GCD eraill ac i roi adborth i'r arweinyddiaeth ar y gwersi a ddysgwyd	36%
Wedi galluogi GCD i gael cymorth oddi wrth fentor neu hyfforddwr	35%
Wedi galluogi GCD i ddarllen cyhoeddiadau, llyfrau, cyfnodolion, erthyglau (copi caled neu ar-lein) neu ymchwilio pwnc	33%
Wedi galluogi GCD i fod yn fentor neu'n hyfforddwr i eraill	29%
Wedi galluogi GCD i ymgymryd ag ymchwil (nid ar gyfer cymhwyster)	13%
Arall	8%

- 3.57 Yn yr un modd â data'r staff cymorth, mae'r penaethiaid yn dweud i'r dysgu proffesiynol bron i gyd (95%) ddigwydd yn ystod oriau ysgol a defnyddiodd mwyafrif sylweddol iawn (91%) y penaethiaid eu staff nhw eu hunain i ddarparu'r dysgu proffesiynol, â 62% yn defnyddio staff y consortia a 43% yn defnyddio staff o ysgolion eraill. Unwaith eto, i gefnogi data'r staff cymorth, adroddodd y penaethiaid iddyn nhw ddefnyddio rhywfaint ar ddarparwyr allanol (62%) a staff ALI (53%). Yn wahanol i'r staff cymorth, er i benaethiaid adrodd iddyn nhw ddefnyddio sefydliadau addysg bellach i ryw raddau, nid adroddodd un ohonyn nhw iddyn nhw ddefnyddio'r darparwyr addysg uwch a grybwyllwyd gan y staff cymorth; gallai hyn awgrymu bod staff cymorth yn cael mynediad i ddysgu proffesiynol o'r ffynhonnell hon heb i'r ysgol fod yn ymwybodol.
- 3.58 Awgrymodd y cyfweiliadau a gynhaliwyd gyda'r staff cymorth fod enghreifftiau lle y bydd staff cymorth yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd staff a sesiynau datblygu proffesiynol yn yr ysgol ar y cyd â'r staff addysgu, yn fach iawn.
- 3.59 Fe wnaeth arolwg y staff cymorth adnabod hefyd y prif rwystrau a welai staff cymorth wrth ymgymryd â dysgu proffesiynol. Mae'r ymatebion i'w gweld yn Nhabl 12.
- 3.60 Mae Tabl 12 yn dangos bod y staff cymorth yn ystyried y gost ariannol i'r ysgol ac i'r unigolyn yn brif rwystr rhag cael mynediad i ddysgu proffesiynol. Rhoddwyd y gost bosib i gyllideb yr ysgol gan 73% o'r ymatebwyr a nododd 30% fod y gost bersonol yn ffactor a oedd yn cyfyngu ar eu mynediad i ddysgu proffesiynol.

Tabl 12: Beth yw'r rhwystrau mwyaf sy'n atal staff cymorth rhag bod â mynediad i ddysgu proffesiynol?

Ateb	%
Y gost i gyllideb yr ysgol	73%
Gwrthdaro â'ch gwaith / dim digon o amser yn y baich gwaith / diwrnod ysgol	45%
Diffyg ymwybyddiaeth o gyfleoedd datblygu proffesiynol	31%
Cost bersonol	30%
Ymrwymadau cartref, teulu, personol	22%
Diffyg cefnogaeth oddi wrth eich cyflogwr/rheolwr	22%
Nid yw eich datblygiad proffesiynol yn ffurfio rhan o gynllun datblygu presennol yr ysgol	16%
Nid yw'r dysgu proffesiynol perthnasol ar gael neu o ansawdd digonol	10%
Arall (rhowch fanylion)	4%
Adnoddau heb fod ar gael yn Gymraeg	4%

Ffynhonnell: Arolwg staff cymorth n= 451 (caniatawyd ymatebion lluosog)

Pwysigrwydd Dysgu Proffesiynol

- 3.61 Mae pwysigrwydd dysgu proffesiynol ar gyfer staff cymorth wedi'i gydnabod yn eang. Pwysleisiwyd hyn gan un pennaeth ar secondiad sy'n gweithio gyda Chonsortium Addysg Rhanbarthol:

'Mae angen ymarferwyr effeithiol arnoch chi... sy'n adfyfyrio ac yn meddwl am addysgu plant, felly bydd rhaid i chi wella'u dealltwriaeth addysgol. Dyma'r gweithlu sy'n treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn y rheng flaen gyda'r plant o ddydd i ddydd a nhw, mae'n bur debyg, yw'r rhai isaf eu cymwysterau neu sydd â'r lleiaf o hyfforddiant yn addysgeg dysgu'.

- 3.62 Fe wnaeth yr un cyfwelai nodi'n adfyfyriol, fodd bynnag, fod y sefyllfa bresennol ymhell o'r ddelfryd hon, ac roedd llawer o benaethiaid heb fod â ffocws ar ddatblygiad proffesiynol y rhan hon o'u gweithlu.

'Rwy'n cwrdd â llawer o benaethiaid ac i ryw raddau maen nhw wedi'u darbwyllo gan eu bod yn dod i gael gwybod sut y gallan nhw ddatblygu eu

gweithlu. Ond mae llawer o bobl mäs yno na fydd yn dod ac yn gwneud y defnydd gorau o'u gweithluoedd yn yr ysgolion. Dydyn nhw ddim yn gwneud y defnydd gorau o'u Cynorthwywyr Addysgu a'r adnodd sydd ganddyn nhw o'u cwmpas..... Mae rhai pobl yn dweud eu bod yn gwneud hyn, h.y. byddan nhw'n caniatáu i'w hymgeiswyr wneud hyn gan nad ydyn nhw am gael eu gweld yn eu dal nôl â'u datblygiad proffesiynol parhaus, ond dydyn nhw ddim yn eu defnyddio wedi hynny. Yr hyn sy'n fy mhoeni yw na fydd penaethiaid yn dod i sesiynau gwybodaeth, a hyd yn oed y rhai a fydd yn dod i sesiynau gwybodaeth – dydyn nhw ddim yn gwybod beth gallan nhw a beth na allan nhw ei wneud – ac mae hyn yn destun ychydig o ofid. [Pennaeth ar secondiad, GCA]

- 3.63 O'r dystiolaeth a gafwyd gan randdeiliaid, gan gynnwys CGA, undebau llafur y staff cymorth ac Estyn, mae'n amlwg y bydd angen addasu'r math o ddatblygiad proffesiynol a fydd yn ofynnol wrth i natur y gweithlu newid. O'r 30% o'r staff cymorth sydd bellach wedi'u cofrestru gyda CGA ac sydd wedi darparu gwybodaeth ar lefel eu cymwysterau, mae 13% yn raddedigion (yr un canran o staff cymorth yn Nhabl 7 uchod a ymatebodd i'r arolwg) sy'n adlewyrchu tuedd gynyddol i fyfyrwyr israddedig oddi ar gyrsiau astudiaethau addysg a graddau eraill ddechrau yn y gweithlu yn staff cymorth er na fyddan nhw'n ennill 'premiwm graddedigion' am y gwaith hwn. Bydd y ganran hon hefyd yn cynnwys nifer fach o'r gweithlu presennol a fydd, weithiau â chymorth (ac weithiau heb gymorth) eu hysgolion, yn ymgymryd â chysiau israddedig rhan-amser.
- 3.64 Roedd undebau llafur staff cymorth, er eu bod yn cydnabod hefyd fod gan eu haelodau bellach amrywiaeth fwy eang o gymwysterau a phrofiad nag a oedd yn wir yn y gorffennol, yn parhau i gredu y dylai fod lefel isaf o gymhwyster yn ddisgwyliedig ar gyfer graddau gwahanol o staff cymorth ac y dylai dysgu proffesiynol fod yn ei le i'w helpu i symud ymlaen i lefelau uwch.

Anghenion Dysgu Proffesiynol

- 3.65 Mae Tabl 13 yn dangos ymatebion y staff cymorth ar ble maen nhw'n teimlo bod angen rhagor o ddysgu proffesiynol arnyn nhw.

3.66 Mae'r ymatebion o ran meysydd megis rheoli ymddygiad, gwaith grŵp ac ADY yn adlewyrchu prif rolau a chyfrifoldebau staff cymorth a adnabuwyd yn gynt. Fel y byddwn yn ystyried isod, mae eu rôl gynyddol yn cefnogi lles disgyblion wedi'i hadlewyrchu yma hefyd. Mae'r ffocws ar sgiliau TGCh yn alinio'n gryf â'r ddarpariaeth ddysgu broffesiynol bresennol y cyfeiriwyd ato uchod.

Tabl 13: Meysydd lle y bydd staff cymorth yn croesawu datblygiad pellach

Ateb	%
Strategaethau rheoli ymddygiad dysgwyr	55%
TGCh a sgiliau digidol	55%
Gweithio gyda dysgwyr sydd ag anghenion ychwanegol	44%
Lles dysgwyr	37%
Dysgu cyfeiriedig ar gyfer grwpiau bach	35%
Sgiliau yn y Gymraeg	34%
Llythrennedd a/neu rifedd	30%
Polisi addysg cenedlaethol a blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru e.e. fframwaith llythrennedd a rhifedd	24%
Gwerthuso dysgwyr ac asesu ar gyfer dysgu	24%
Adfyfrio ar a gwerthuso eich ymarfer	19%
Gwybodaeth pwnc neu gyfnod	18%
Diogelu	17%
Cydraddoldeb ac amrywiaeth	14%
Rheoli fy amser yn fwy effeithiol	13%
Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Safonau Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc	10%
Arall	4%

Ffynhonnell: Arolwg Staff Cymorth n= 447 (caniatawyd ymatebion lluosog)

- 3.67 Fe wnaeth 22% o'r ymatebwyr i arolwg y staff cymorth nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg. Nododd dros ddwy ran o dair o'r rhain (69%) eu bod yn gallu cael mynediad i ddysgu proffesiynol yn eu dewis iaith. Mae'n werth nodi, fodd bynnag, pan ofynnwyd iddyn nhw "p'un fyddai eich dewis iaith o ran bod â mynediad i ddysgu proffesiynol", dewisodd y rhan fwyaf (60%) y cyfrwng Saesneg.
- 3.68 Adnabuwyd dau faes arall lle roedd angen o ran dysgu proffesiynol mewn cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid ac yn yr ysgolion. Yn gyntaf, yr angen am gymorth helaeth ar gyfer staff cymorth yn y cymunedau mwyaf difreintiedig a wynebai'r anawsterau mwyaf yn aml yn recriwtio staff cymorth â chymwysterau priodol. Yn ail, mor bwysig oedd hi bod y staff cymorth yn cael gwybod am y newidiadau mawr a oedd ar droed ar hyn o bryd yn y system addysg yng Nghymru, yn enwedig datblygiad y cwricwlwm newydd.

Boddhau Anghenion Dysgu Proffesiynol

- 3.69 Adnabuodd canlyniadau'r arolwg sut mae anghenion dysgu proffesiynol staff cymorth yn cael eu boddhau ar hyn o bryd. Ar lefel ysgol, bydd hyn yn aml yn dechrau pan fydd y staff presennol yn mentora'r staff cymorth newydd.
- 3.70 Efallai mai'r cyfnod nesaf fydd i'r staff cymorth dderbyn hyfforddiant sylfaenol ar feysydd megis iechyd a diogelwch, gwarchod, cod ymarfer CGA a'r defnydd ar gyfryngau cymdeithasol, naill ai'n fewnol neu gan sefydliadau allanol megis darparwyr dysgu yn y gweithle, staff AD yr awdurdod lleol a'r CGA.
- 3.71 Mae nifer fach o ysgolion wedi dechrau ymestyn y dull hyfforddi dysgu-yn-y-gwaith mewn ffordd fwy systematig drwy gyflogi a hyfforddi staff cymorth yn brentisiaid wedi'u cyllido'n llawn.
- 3.72 Canfu'r ymchwil, er y bydd y rhan fwyaf o'r ysgolion yn darparu rhyw fath o hyfforddiant sylfaenol 'yn y gwaith' ar gyfer y staff cymorth fel y nodir uchod, bydd nifer lawer yn llai yn rhoi cyfleoedd i staff cymorth ddatblygu gwybodaeth addysgol a fydd yn briodol i'r rôl gynyddol y byddan nhw'n ei chyflawni yn y gweithgareddau dysgu ac addysgu.

- 3.73 Yn un o ysgolion yr astudiaeth achos, mewn cymuned ddifreintiedig iawn, mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn ymateb i'r her yma drwy anelu at gael pob un o'r staff cymorth wedi'u haddysgu hyd lefel gradd o leiaf ac, ar gyfer y rheiny a fydd â graddau cyntaf, iddyn nhw gael symud ymlaen i astudio lefel Meistr. Ar hyn o bryd mae grŵp o staff yn cael eu datblygu yn y ffordd hon drwy lwybrau rhan-amser a fydd wedi'u cyd-ariannu. Nododd y pennaeth o ganlyniad i hyn fod:
- ‘peth o'r gwaith a wnaed gan staff cymorth o ran ymchwil gweithredol yn gryfach na rhai o'n hathrawon, am fod mwy o wybodaeth ganddyn nhw y gellir ei defnyddio pan fyddwch yn cymharu aelod o'r staff cymorth sydd â 20 mlynedd o wybodaeth ag ANG sydd â blwyddyn o brofiad’. (Pennaeth ysgol gynradd, Consortiwm Canolbarth y De)
- 3.74 Bydd undebau llafur y staff cymorth yn darparu ystod eang o gyfleoedd ar gyfer eu haelodau, y bydd rhai o'r cyfleoedd hyn yn bosib nawr drwy raglen Cronfa Ddysgu Undebau Cymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Er mai ar gyfer hyfforddiant sylfaenol yr oedd y cyfleoedd hyn yn cael eu darparu i ddechrau, nawr byddan nhw'n canolbwyntio'n gynyddol ar addysgeg a sesiynau bore Sadwrn, y bydd y Brifysgol Agored yn darparu rhai ohonyn nhw, ac adroddir eu bod bron â bod wedi'u gordanysgrifio bob amser.
- 3.75 Yn ddiweddar, bu'r Consortia Addysg Rhanbarthol yn ymwneud lawer mwy â darparu cyfleoedd ychwanegol ar gyfer staff cymorth i ymgymryd â dysgu proffesiynol. Roedd hyn yn ganlyniad i awydd Llywodraeth Cymru i godi'n sylweddol nifer y CALU yn yr ysgolion a'r Consortia'n dwyn perswâd arnyn nhw y byddai'n well gwario'r arian ar ddatblygu llwybrau gyrfaol a allai ddod â rhai o'r staff cymorth drwyddo i fod yn CALU o bosib.
- 3.76 Yn rhanbarth GCA mae'r ddarpariaeth wedi cynnwys Fframwaith Cynorthwyydd Addysgu Rhagorol a gafodd ei addasu o rywbeth a gynigiwyd yn flaenorol i athrawon. Bydd hwn yn canolbwyntio ar wella gwybodaeth addysgol staff cymorth yn gymesur â'u rôl a'u cyfrifoldebau. Gellir defnyddio'r rhaglen yn yr ysgolion a'i haddasu i'w hanghenion a'u polisiau nhw eu hunain. Cafodd y ddarpariaeth dderbyniad da, yn enwedig gan staff cymorth a fydd yn gweld hyn yn dystiolaeth y

bydd eu rolau'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr, er y bu cael hyd i amser rhydd iddyn nhw gael cymryd rhan yn her.

3.77 Arweiniodd gwaith o'r math hwn yn y rhanbarthau at ddatblygu cynnig llwybrau dysgu wedi'u cyllido'n llawn ar gyfer staff cymorth gan y Consortia Addysg Rhanbarthol am y tro cyntaf yn 2017/18 ar y lefelau canlynol:

- Darpar Gynorthwyr Addysgu
- Cynorthwyr Addysgu newydd eu penodi
- Cynorthwyr Addysgu Gweithredol
- Darpar CALU
- CALU arbenigol

3.78 Y bwriad yw y caiff hyn ei ddatblygu yn rhaglen genedlaethol erbyn 2018/19 gan gynnwys defnyddio Safonau Proffesiynol newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Staff sy'n Cynorthwyo'r Addysgu. Ni fydd y rhaglenni'n arwain at achrediad ond caiff staff y bydd angen datblygu lefel eu sgiliau sylfaenol a'u cymwysterau, eu cyfeirio at ddarparwyr hyfforddiant lleol. Mae rhai ysgolion yn y rhanbarthau wedi dangos diddordeb mawr yn y rhaglen: yn rhanbarth GwE, er enghraifft, fe wnaeth 450 staff cymorth – tua 10% o'r gweithlu – gymryd rhan yn y rhaglen yn ei blwyddyn gyntaf.

Rhesymau a Chymhellion dros Ddysgu Proffesiynol

3.79 Dylai cyfleoedd sydd wedi'u cyllido'n llawn, megis y rheiny a gynigir gan y Consortia Rhanbarthol, helpu i oresgyn y diffyg cyllido a adnabuwyd gan yr arolwg yn un o'r prif heriau y bydd staff cymorth ac ysgolion yn eu hwynebu wrth ymgymryd â dysgu proffesiynol.

3.80 Bydd y broblem o gael amser rhyddhau i ymgymryd â'r rhaglenni hyn, fodd bynnag, yn parhau a bydd yn ofynnol i'r ysgolion ymrwymo i ddatblygiad proffesiynol eu staff. Fe wnaeth y sefyllfa bresennol lle y bydd staff cymorth yn aml heb gael cynnig amser rhydd, arwain at yr ysgogiad personol o ran cymorth i ymgymryd â dysgu proffesiynol yn eu hamser nhw eu hunain, a hwn fyddai'r prif ffactor a fyddai'n pennu a fyddan nhw'n symud o hyfforddiant sylfaenol i ddatblygiad proffesiynol ar lefelau uwch.

- 3.81 Nododd Estyn eu bod yn credu bod gan nifer gynyddol o'r staff cymorth yr hunan-ysgogiad yma a fydd yn adlewyrchu bod mwy o hunan-barch ganddyn nhw ynghyd â'r gwerth ychwanegol y mae ysgolion yn ei roi ar eu gwaith. Mae CGA yn credu i'r penderfyniad i gofrestru staff cymorth fod yn bwysig yn cydnabod eu statws yn y gweithlu addysg ac mae'n galonidd iddyn nhw fod tua 4,000 o'r 35,000 o staff cymorth sydd wedi cofrestru gyda nhw wedi creu cyfrif cyfrinair dysgu proffesiynol eisoes.
- 3.82 Fe eglurodd rhai o'r staff cymorth a gafodd eu cyfweld, fodd bynnag, mai prin yw'r cymhellion i ymgymryd â datblygiad proffesiynol gan i'w profiad fod nad oedd hyn yn arwain at unrhyw symud ymlaen yn statws eu swydd neu eu cyflog. Cafodd eu persbectif ei gefnogi'n gyffredinol gan gynrychiolwyr y cymdeithasau proffesiynol, y Consortia a'r penaethiaid a gyfwelwyd. Fe wnaeth un pennaeth sydd ar secondiad ar hyn o bryd gydag un o'r Consortia Addysg Rhanbarthol fynegi hyn fel a ganlyn:
- ‘Dyna pam na allwch osgoi problem cyflogau ac amodau yn y pen draw, er na allwch fynd i'r tir peryglus yna, ni allwch osgoi'r ffaith os ydych am i'r bobl hyn fod yn addysgwyr, bydd rhaid i chi eu talu...bydd rhaid bod mwy o gymwysterau ganddyn nhw na'r rhai sydd ganddyn nhw ar hyn o bryd, a bydd angen i chi eu talu yn gymesur â hynny’.
- 3.83 Un math o ddatblygiad proffesiynol a fydd yn agored i staff cymorth yw symud ymlaen i yrfa mewn addysgu. Fel y nodwyd uchod, mae nifer gynyddol o raddedigion yn dod i mewn i weithlu'r staff cymorth, rhai â'r bwriad o ymgymryd â'r rôl hon naill ai er mwyn ‘blasu’ ai addysgu fyddai'r dewis gyrfai iawn iddyn nhw neu er mwyn magu profiad gwaith cyn gwneud cais ar gyfer addysg i athrawon israddedig neu ôl-raddedig. Fel y gwnaeth un cyn-bennaeth ddweud wrthym, yn ei phrofiad hithau gall hyn fod yn llwybr priodol i ddod yn athro effeithiol drwy fod wedi magu profiad ymarferol o'r ystafell ddosbarth a datblygiad plant cyn ymgymryd ag addysg i athrawon.
- 3.84 Mae enghreifftiau fel hyn wedi creu canfyddiad ym meddwl rhai arsylwyr fod llawer o'r staff cymorth, gan gynnwys CALU, â diddordeb mewn datblygiad proffesiynol a fydd yn eu symud i mewn i addysgu. Yn ôl y dystiolaeth oddi wrth y staff cymorth, yr

undebau llafur, y penaethiaid a'r Consortia, roedd yn amlwg iawn bod hyn yn gamdybiaeth ar wahân i nifer fach o enghreifftiau. Mae canfyddiadau'r staff cymorth yn yr arolwg yn Atodiad 5 isod yn cefnogi hyn, gan ddangos mai nifer fach o'r ymatebwyr oedd â diddordeb i gael dod yn athrawon.

3.85 Fel yr amlygodd un swyddog undeb llafur:

‘Mae ein cynorthwyyr addysgu bob amser yn dweud wrthym “Dw i ddim eisiau bod yn athro. A wnewch chi beidio â thybied fy mod i’n gwneud hyn er mwyn cael dod yn athro’. Maen nhw’n gwir werthfawrogi’r adeiladu perthynas yna gyda phlentyn neu gyda grŵp o blant, a dyna pam maen nhw’n ei wneud e. Felly, chi’n gweld, mae un y bydda i’n siarad â hi yn rheolaidd, un o’n cynrychiolwyr, mae hi’n gwneud ymyriadau ar rifedd a mathemateg. Mae’n dwlu ar hynny – dyna a fydd yn mynd â’i bryd. Ac mae’n hoffi cael, “Mae fy ngrŵp gen i; rwy’n gwybod ble mae angen help arnyn nhw ac rwy’n mynd i gefnogi’r athro i’w cael nhw i wella”’ (swyddog undeb llafur).

3.86 Mae’r ymchwil yn awgrymu bod y staff cymorth eisiau gweld, yn hytrach na symud ymlaen i addysgu, gyfleoedd da i wella’u hymarfer yn y rolau y maen nhw’n eu gwneud ar hyn o bryd a llwybr gyrfa a fydd yn eu galluogi i ddatblygu eu rolau gan arwain at gynnydd posib yn y gwobrau ariannol y gallen nhw eu derbyn.

3.87 Roedd yn amlwg hefyd, gan adlewyrchu ymchwil addysgol blaenorol yn y maes hwn, mor hollbwysig oedd hi bod arweinwyr ysgolion yn gwerthfawrogi cyfraniadau staff cymorth i’r ysgolion ac yn cydnabod hyn drwy hybu eu datblygiad proffesiynol.

3.88 Mae’r darn canlynol o gyfweiliad gydag un aelod o’r staff cymorth yn dangos y math yma o ymarfer effeithiol:

‘Rydym yn cynnal cyfarfodydd datblygiad proffesiynol gyda’r Pennaeth deirgwaith y flwyddyn siŵr o fod, bob tymor o bosib. Ac yn yr un cyntaf i gyd roedd rhaid i ni gael pob un o’r dangosyddion sy’n dangos beth yw’r lefelau ac roedd rhaid i chi ddweud beth roeddech chi wedi’i wneud, felly fe wnaethoch eu hamlygu i chi gael mapio’r pethau a wnaethoch yn eich rôl. Felly, roedd pobl yn fwy ymwybodol o’u rôl yn union a pha mor bwysig oedd y rôl honno. Yna byddai’r Pennaeth yn dweud ‘Wel, beth hoffech ei wneud? Beth hoffech i’ch cam nesaf fod?’ Ac roedd rhai pobl eisiau ymwneud mwy â Phrosiect Ysgolion ag Ymwybyddiaeth o Ymlyniad, roedd rhai pobl am ymwneud yn benodol â gwella darllen neu beth bynnag fyddai eu diddordeb nhw’ (Aelod o staff cymorth, Rhanbarth ERW).

Tystiolaeth arall

3.89 Ymhlith y dystiolaeth arall a gasglwyd ar ddysgu proffesiynol roedd:

- Yr angen i fwy o bwyslais gael ei roi mewn cwrs addysg gychwynnol i athrawon ar rolau a chyfrifoldebau staff cymorth a'r ffordd fwyaf effeithiol y gallan nhw gael eu lleoli a'u defnyddio yn yr ystafell ddosbarth.
- Y diddordeb a'r profiad eang sydd gan undebau llafur y staff cymorth ynglŷn ag anghenion dysgu proffesiynol eu haelodau ac ystod eang y gwaith y maen nhw'n ei wneud i foddhau'r anghenion hynny.
- Y manteision y bydd rhai ysgolion yn credu y gellir eu hennill o gael yr athrawon a'r staff cymorth i ymgymryd â dysgu proffesiynol yn yr ysgol gyda'i gilydd weithiau.

3.90 Yn ystod cyfnod gwaith maes yr astudiaeth hon, bu Llywodraeth Cymru yn cwblhau cyfnod cyntaf ei gwaith yn datblygu safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyrwyr addysgu a chynorthwyr addysgu lefel uwch (CALU) yn yr ysgolion. Cafodd y rhain eu datblygu drwy weithio'n agos gyda'r proffesiwn, yr awdurdodau lleol/consortia a rhanddeiliaid eraill gan gynnwys undebau'r gweithlu. Maen nhw wedi'u halinio â'r model pum-safon sydd wedi'i ddatblygu ar gyfer addysg ac arweinyddiaeth, ac mae natur a gwerthoedd trosfwaol yn cyd-fynd â nhw. Cafodd y safonau eu profi yn yr ysgolion a'u diwygio i gael cymryd eu hadborth cyntaf i ystyriaeth. Cyhoeddwyd safonau drafft yn nhymor yr haf yn 2018 er mwyn i ysgolion eu harchwilio a'u defnyddio, cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus a agorodd yn nhymor yr hydref ac a gaeodd ym mis Mawrth 2019. Caiff ymatebion yr ymgynghoriad eu hystyried ac mae'r safonau diwygiedig terfynol i fod i fod ar gael yn nhymor yr haf, i'w defnyddio yn yr ysgolion o fis Medi 2019⁴.

⁴ [Safonau proffesiynol drafft ar gyfer cynorthwyo addysgu](#)

Effaith

Tystiolaeth Ymchwil

3.91 Mae'r ymchwil ar yr effaith y mae staff cymorth yn ei chael ar ddisgyblion ac ysgolion ar draws y system addysg yn y DU, a adroddwyd ym mhennod 1, yn awgrymu'r canlynol:

- Mae'r staff cymorth yn cael effaith positif ar faich gwaith yr athrawon, ar eu boddhad â'u swydd, lefelau straen a, lle roedd perthnasoedd a chydweithredu da yn eu lle, ar ansawdd yr addysgu.
- Mae'r staff cymorth yn gyffredinol yn cael effaith dda ar reoli'r ystafell ddosbarth gan gynnwys ymddygiad ac agwedd y disgyblion.
- Mae'r dystiolaeth o'u heffaith ar ddysgu'r disgyblion yn fwy cymysg ac mae'n dibynnu a fu cynllunio ar gyfer hyn a lefel ac ansawdd y datblygiad proffesiynol a gafwyd.
- Os caiff staff cymorth eu gorddefnyddio, gall hyn gael effaith negyddol ar ddysgu, addysgu a safonau, yn enwedig ar ddisgyblion isel eu cyrhaeddiad a lle y bydd y ffocws ar gwblhau tasgau yn hytrach nag ar ddatblygu sgiliau dysgu'r disgyblion.
- Felly mae gwerthuso effaith staff cymorth (yn nhermau ansoddol a meintiol) ar ddisgyblion yn allweddol bwysig, ond ar hyn o bryd mae'n gyfyngedig, yn amrywiol, yn aml yn anffurfiol a heb fod yn canolbwyntio digon ar effaith.
- Nid yw ysgolion yn cael cyngor oddi wrth y llywodraeth/llywodraeth leol ar leoli a defnyddio effeithiol.
- Cafodd y diffyg cydbwysedd sylweddol rhwng y rhywiau ymhlith y staff cymorth ei godi yn broblem a allai effeithio ar ddysgu bechgyn.
- Ni fydd yr athrawon ac arweinwyr ysgolion yn derbyn datblygiad proffesiynol ar y ffyrdd mwyaf effeithiol i leoli a defnyddio staff cymorth.

Canlyniadau mesuradwy

3.92 Mae'r ymchwil sydd ar gael eisoes wedi canolbwyntio'n gyffredinol ar ganlyniadau mesuradwy ar gyfer disgyblion. Er i 91% o benaethiaid wrth ymateb i'r arolwg hwn adrodd y gwnaethon nhw geisio gwerthuso unrhyw effaith y gallai eu staff cymorth

ei chael ar gyrhaeddiad disgyblion, ni wnaethon nhw gynnig fawr ddim tystiolaeth ar sut roedd hyn yn cael ei weithredu mewn gwirionedd.

- 3.93 Ar y cyfan, ni wnaeth y gwaith ymchwil a wnaed ar gyfer yr adroddiad hwn ddatgelu bod unrhyw enghreifftiau o'r math yma o waith monitro neu werthuso yn cael ei wneud yn systematig yn yr ysgolion cynradd. Fe wnaeth hyn gadarnhau'r dystiolaeth oddi wrth Estyn nad oedd tystiolaeth gadarn ar gael fel arfer i gefnogi'r rhagdybiaethau bod disgyblion a fydd yn derbyn cymorth un-i-un neu ymyriadau grwpiau bychain yn gwella'u lefelau cyrhaeddiad, er y gallai rhieni ac eraill ragdybied hyn.
- 3.94 Mewn nifer gyfyng o enghreifftiau, nododd yr ymchwil fod ymyriadau grwpiau bychain penodol wedi'u monitro'n ofalus er mwyn canfod effaith fesuradwy gan aelod o'r staff cymorth ac eraill yn yr ysgol. Yn un enghraifft, gwnaed hyn drwy gyn-asesu sgiliau rhif y disgyblion cyn gwneud rhaglen ymyrryd ddeg-wythnos a chyflawni asesiad ôl-ymyrraeth ac edrych ar lyfrau'r disgyblion. Yna câi'r dystiolaeth hon ei rhoi mewn systemau rheoli asesu a'i defnyddio yn sail i adolygiadau chwarterol a blynyddol o gynnydd y disgyblion.
- 3.95 Datgelodd yr ymchwil hefyd, fodd bynnag, fod arweinwyr ysgolion yn aml yn ofalus wrth bwysu a mesur dilysrwydd y math yma o dystiolaeth oherwydd y gallai fod yn ganlyniad 'cwbllhau tasgau' gan ddisgyblion â chymorth gan staff cymorth, yn hytrach na gwelliant gwirioneddol yn eu dealltwriaeth a'u cyrhaeddiad addysgol, sef yr hyn a alwodd un pennaeth yn 'rhwyddineb gweithredu' yn hytrach na 'rhwyddineb dealltwriaeth'.
- 3.96 Mae'n ymddangos yn glir, felly, bod diffyg tystiolaeth drylwyr oddi wrth Estyn, Consortia Addysg Rhanbarthol, ysgolion, ymchwil addysgol a ffynonellau posib eraill o ran yr effaith fesuradwy y gallai staff cymorth fod yn ei chael ar gyrhaeddiad disgyblion yn yr ysgolion cynradd yng Nghymru. Cadarnhawyd hyn gan bob un o'r rhanddeiliaid a'r ymarferwyr y buon ni'n eu cyfweld yn rhan o'r ymchwil.

Canlyniadau 'meddal'

- 3.97 Eglurodd llawer o'r cyfranogwyr, fodd bynnag, nad allbynnau mesuradwy yn eu barn nhw oedd yr unig ffordd y gellir asesu effaith staff cymorth ac y dylid ystyried mesurau 'meddal' yn ogystal â data 'caled'.
- 3.98 Gallai'r canlyniadau 'meddal' hyn gynnwys yr effaith y mae'r staff cymorth wedi'i chael ar leihau baich gwaith athrawon yn ogystal â chyfoethogi profiad y disgyblion. Fe wnaeth yr ymatebwyr alw sylw at lawer o enghreifftiau lle y byddai staff cymorth yn cael effaith positif ar les disgyblion gan gynnwys adeiladu pethnasoedd un-i-un, meithrin disgyblion a allai fod yn profi anawsterau emosiynol y tu allan i'r ysgol a datblygu eu gwytnwch i ymgymryd â dysgu.
- 3.99 Fe wnaeth un pennaeth a gyfwelwyd roi'r enghraifft o blentyn â phroblemau ymddygiad difrifol a allai fod wedi golygu y byddai'n cael ei symud i Uned Cyfeirio Disgyblion, ond roedd wedi gwella'i ymddygiad yn sylweddol dros amser o achos y berthynas roedd wedi'i datblygu gyda'r staff cymorth a oedd wedi'i helpu i resymoli ei ymddygiad ac i leisio'i deimladau. Fe wnaeth hyn arbed llawer o'r gost a fyddai ynghlwm wrth anfon plentyn i'r Uned a'r effaith bosib ar ei ddyfodol.
- 3.100 Fe wnaeth undebau llafur y staff cymorth bwysleisio hefyd yr elfen hon o waith eu haelodau a chymaint roedd ysgolion yn gwerthfawrogi hyn, gan ddangos y byddai'r staff cymorth mewn ardaloedd o anfantais economaidd-gymdeithasol, er iddyn nhw fod ar gyflogau cymharol fach, yn prynu cyfarpar ar gyfer yr ysgolion i'r disgyblion gael cymryd rhan lawn yn y gwersi.
- 3.101 Pwysleisiodd y Consortia Addysg Rhanbarthol y rôl sydd gan staff cymorth yn datblygu sgiliau cymdeithasol disgyblion, megis ymddygiad priodol a datblygu cyfeillgarwch. Cynigiodd un o undebau'r athrawon y farn i rôl lles y staff cymorth gynyddu i gymaint graddau nes y gallai fod perygl y bydd athrawon yn cael eu symud o waith bugeiliol, gan arwain at fod yn llai ymwybodol o anghenion unigol disgyblion, yn enwedig os bydd staff cymorth yn gadael eu rôl.
- 3.102 Un fantais arall o fod â staff cymorth mewn ysgolion cynradd a awgrymwyd yn y cyfweiliadau yw'r ffaith y byddai llawer o'r staff cymorth yn fwy tebygol o fyw yn ardal leol yr ysgol ac, felly, byddai cysylltiadau cryf ganddyn nhw â'r ysgol ac â chymuned

yr ysgol, gan gynnig cysylltiadau â rhieni, teuluoedd a'r gymuned ehangach na fyddai gan yr athrawon o bosib.

Arfarnu a Rheoli Perfformiad

- 3.103 Rhagdybiaeth resymol i'w gwneud yw y byddai systemau rheoli perfformiad/arfarnu ar gyfer staff cymorth yn eu lle i gael adnabod eu heffaith yn ogystal ag i benderfynu ar eu datblygiad proffesiynol. Mae'r ymchwili yn awgrymu nad dyma'r sefyllfa bob amser a bod tracio neu gofnodi effaith yn gyfyngedig ac yn amrywio'n fawr. Mae arolwg y staff cymorth yn dangos i 57% o'r ymatebwyr gael adolygiad perfformiad yn y deuddeg mis diwethaf ac yn ôl 12% nid oedden nhw wedi cael eu hadolygu erioed.
- 3.104 Mae Tabl 14 yn crynhoi ymatebion y staff cymorth i'r arolwg ac yn dangos y meysydd oedd wedi'u cynnwys gan yr adolygiadau perfformiad a sylwyd bod y ffocws ar effaith, cyrraedd amcanion a chyfrannu i wella'r ysgol mewn tua chwarter o'r enghreifftiau.

Tabl14: Pa feysydd gafodd eu cynnwys yn eich adolygiad rheoli perfformiad diwethaf?

Ymateb	%
Cytuno ar eich amcanion perfformiad am y flwyddyn nesaf	64%
Cytuno ar eich amcanion datblygiad proffesiynol am y flwyddyn nesaf	58%
Adolygu ac adfyfrio ar y datblygiad proffesiynol rydych wedi ymgymryd â fe	36%
Adolygu ac adfyfrio ar eich perfformiad yn erbyn amcanion cytunedig	30%
Adolygu ac adfyfrio ar eich cyfraniad i flaenoriaethau datblygiad ysgol	30%
Adborth oddi wrth arsylwi ar eich gwaith	28%
Adolygu ac adfyfrio ar eich effaith ar ganlyniadau dysgwyr	26%
Trafodaeth ar eich baich gwaith	23%
Adfyfrio ar eich gwaith o ran safonau proffesiynol	16%
Adolygu ac adfyfrio ar y cymorth oddi wrth eich rheolwr llinell	13%
Arall (rhowch fanylion)	7%

Ffynhonnell: Arolwg Staff Cymorth n= 396 (caniatwyd ymatebion lluosog)

- 3.105 Disgrifiodd rhai penaethiaid a gyfwelwyd sut y bydden nhw'n defnyddio rheoli perfformiad staff cymorth i gael adnabod targedau blynyddol mewn meysydd y byddai'r aelod o staff am eu datblygu ac a fyddai hefyd o fudd i'r ysgol. Gallai'r rhain fod yn gysylltiedig â chyrhaeddiad disgyblion, ond gallen nhw hefyd fod yn gysylltiedig â 'mesurau meddal' megis yr anawsterau emosiynol roedd y plant yn eu hwynebu.
- 3.106 Mewn rhai enghreifftiau, bydd y staff uwch yn edrych ar ddatblygiad personol yr aelod o staff a'r effaith a gafwyd ar unigolion a grwpiau o blant yn ystod sesiynau arfarnu, â rhai'n defnyddio'r safonau proffesiynol newydd a phasbort dysgu proffesiynol CGA i'r perwyl hwn.

- 3.107 Mae'r dystiolaeth a roddwyd gan y Consortia, staff AD Awdurdod Lleol ac undebau llafur y staff cymorth yn awgrymu bod yr enghreifftiau uchod, fodd bynnag, wedi'u cyfyngu i leiafrif o ysgolion ac yn yr enghreifftiau hyn roedd ansawdd y broses monitro effaith yn amrywiol iawn. Mae'r arsylwad bod cyfrifoldebau rheoli-llinell ar gyfer staff cymorth yn amrywio yn awgrymu ffactor sy'n cyfrannu i hyn; weithiau byddai'r cyfrifoldeb gan y pennaeth neu aelodau o'r tîm arwain uwch ac, ar adegau eraill, CALU fyddai'n gyfrifol, ond yn llawer o'r ysgolion nid oedd y berthynas hon yn glir a, lle y byddai'n bodoli o gwbl, roedd yn anffurfiol. Dangosodd arolwg y staff cymorth, lle roedd adolygiadau wedi digwydd, y cafodd y rhain eu cyflawni gan gymysgedd o benaethiaid (28%), dirprwy benaethiaid (23%), rheolwyr canol (29%), athrawon dosbarth (7%) ac eraill (14%).
- 3.108 Roedd staff AD awdurdodau lleol o'r farn bod athrawon ac arweinwyr canol yn aml yn ansicr a ddylai staff cymorth gael eu harfarnu. Fe wnaeth Estyn alw sylw at y ffaith bod penaeithiaid a staff addysgu yn aml heb dderbyn dim datblygiad proffesiynol ar y ffordd orau i reoli staff cymorth ac roedd yn anochel y byddai hyn yn effeithio ar y canlyniadau a gaen nhw.
- 3.109 Mae'n ymddangos yn glir hefyd bod diffyg arweiniad i benaethiaid ac aelodau eraill o'r staff addysgu ar y ffordd orau i gael deall a monitro effaith staff cymorth a chynllunio ar gyfer eu hanghenion datblygu proffesiynol ac, yn gyffredinol, nid ydyn nhw'n ymwybodol o'r dystiolaeth ymchwil sydd wedi'i chynhyrchu yn y maes hwn nac yn gwneud defnydd ohoni.
- 3.110 Yn hyn o beth, cynhyrchodd arolwg y staff cymorth rai canfyddiadau diddorol ar ba mor effeithiol y mae'r ysgol, yn eu barn nhw, yn cael y gorau oddi wrthyn nhw a'r pethau y maen nhw'n credu yw'r elfennau o'u gwaith sy'n rhoi'r boddhad mwyaf iddyn nhw. Gellir gweld y rhain yn Atodiad 7.
- 3.111 Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr ddangos i ba raddau roedden nhw'n cytuno a oedd eu hysgol yn effeithiol yn cael y gorau oddi wrthyn nhw, roedd yr ymateb cyffredinol i'r gosodiad hwn yn bositif â 64% yn cytuno'n gryf neu'n cytuno i raddau, ond roedd nifer sylweddol (36%) naill ai'n ansicr (15%) neu'n anghytuno i raddau (21%).

Tystiolaeth arall

3.112 Fe wnaeth tystiolaeth arall ar effaith a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad amlygu'r canlynol:

- Fe wnaeth penaethiaid cynradd egluro'n aml wrth staff AD awdurdod lleol nad oedd staff cymorth yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am y cyfraniad a wnân nhw a hynny oherwydd eu cyflog a'u hamodau.
- Os bydd staff cymorth yn mynd i ennill statws CALU, un o'r meini prawf y bydd rhaid ei foddhau fydd dangos iddyn nhw lwyddo i gael effaith ar ddisgyblion.
- Awgrymodd un cymdeithas penaethiaid mai ystyriaethau ariannol oedd yn gyrru'r sefyllfaoedd lle y bydd CALU yn addysgu dosbarth llawn o dan gyfarwyddyd yr athro, ac nad oedd yr effaith bosib ar y disgyblion yn cael ei hystyried.
- Awgrymodd staff AD awdurdod lleol y byddai'n fwy tebygol o lawer y byddai staff cymorth yn absennol oherwydd salwch tymor byr nag y byddai'r staff addysgu ac ar hyn o bryd roedden nhw'n archwilio'r rhesymau y tu cefn i hyn.
- Awgrymodd Estyn ei bod yn arfer bellach i ysgolion ddefnyddio cyllid ychwanegol megis y *Grant Datblygu Disgyblion* i gyflogi staff cymorth heb ystyried ai dyma'r ffordd orau i ddefnyddio cyllid ac a fyddai'n bosib defnyddio'r arian yn fwy effeithiol mewn ffyrdd eraill.

4. Casgliadau

Lleoli a Defnyddio

- 4.1 Gwelwyd cynnydd graddol yn nifer y staff cymorth sy'n gweithio yn yr ysgolion cynradd yng Nghymru oddi ar 2000, er y bydd ysgolion yn adrodd bod y nifer yn gostwng ar hyn o bryd o ganlyniad i brinder cyllid.
- 4.2 Er bod staff cymorth yn elfen fawr o'r gweithlu yn yr ysgolion cynradd â'r rhan fwyaf o'r staff wedi'u cyflogi yn yr un ysgol am gyfnod cymharol fawr o amser, mae dibyniaeth fawr o hyd ar gyllido drwy grantiau er mwyn cyflogi'r gweithlu hwn.
- 4.3 Prif gymhellion staff cymorth wrth ymgymryd â'u rôl yw cael cyfrannu i ddysgu disgyblion ac mae ysgolion yn rhoi gwerth mawr ar hyn.
- 4.4 Mae rolau a chyfrifoldebau staff cymorth wedi cynyddu'n sylweddol ac erbyn hyn maen nhw'n cynnwys cymorth un-i-un, ymyriadau grwpiau bach ac ymyriadau arbenigol.
- 4.5 Gofynnir bellach i lawer o'r staff cymorth (nad ydyn nhw'n CALU) wneud gwaith, megis addysgu dosbarth cyfan, sydd y tu allan i'w disgrifiad swydd a'r rheoliadau presennol.
- 4.6 Mae'r twf anghyson di-gynllun yn y gweithlu wedi golygu bod amrywiaeth ac anghysondebau sylweddol yn nheitlau, rolau, chyfrifoldebau, lefelau cyflog a graddau'r staff cymorth.
- 4.7 Ni fydd y rhan fwyaf o'r staff cymorth yn teimlo eu bod yn gallu rheoli eu beichiau gwaith presennol yn effeithiol.
- 4.8 Mae rolau a chyfrifoldebau CALU wedi ehangu ac maen nhw'n parhau i wneud hynny, yn enwedig o ran addysgu dosbarth cyfan.
- 4.9 Testun pryder yw bod staff cymorth weithiau'n canolbwyntio ar 'gwblhau tasgau' gyda'r disgyblion yn hytrach nag ar ymestyn eu dysgu a datblygu eu sgiliau yn ddysgwyr annibynnol.

- 4.10 Er nad hyn yw'r norm, ceir enghreifftiau o gyd-gynllunio a gwaith tîm cydweithredol yn digwydd rhwng athrawon a staff cymorth a dyma un o nodweddion positif eu gwaith y gwnaeth staff cymorth eu nodi.

Dysgu Proffesiynol

- 4.11 Er i lefel y cymwysterau sydd gan staff cymorth wella dros amser, mae'r ymchwil yn dangos bod llawer o'r staff heb y cymwysterau ar lefelau digon uchel ar gyfer y rolau y maen nhw'n eu gwneud.
- 4.12 Roedd y rhan fwyaf o'r staff cymorth a wnaeth ymateb i'r arolwg wedi ymgymryd â rhyw fath o ddysgu proffesiynol yn y flwyddyn ddiwethaf â'r rhan fwyaf ohono yn yr ysgol, wedi'i ddarparu gan staff yr ysgol a darparwyr allanol ac yn gysylltiedig â phrif rolau a chyfrifoldebau'r staff cymorth. Y prif rwystrau i ymgymryd â dysgu proffesiynol oedd bod â digon o amser a mynediad i gyllid.
- 4.13 Mae pwysigrwydd dysgu proffesiynol ar gyfer staff cymorth wedi'i gydnabod yn eang gan staff cymorth, rhanddeiliaid a rhai ysgolion. Bydd y rhan fwyaf o staff cymorth am ddatblygu'r cymwysterau a'r harbenigedd a fydd yn briodol ar gyfer eu rôl a'u cyfrifoldebau ac mewn meysydd megis ADY a thechnolegau digidol. Er bod diddordeb gan lawer i symud ymlaen i statws CALU, mae diddordeb gan leiafrif bach i gael bod yn athrawon.
- 4.14 Er bod y rhan fwyaf o'r staff wedi ymgymryd â rhyw fath o ddysgu proffesiynol sylfaenol a bod y cyfleoedd ar gyfer hyn yn ehangu, mae'r graddau y bydd hyn yn boddhau eu hanghenion datblygol yn ddadleuol, yn enwedig o ran cefnogi dysgu ac addysgu ac o ran darparu'r ansawdd gofynnol. Mae'r math yma o ddarpariaeth yn cael ei gynnig mwy a mwy nawr gan undebau llafur y staff cymorth a gan y Consortia Addysg Rhanbarthol, ond mae ei ddefnydd yn dal i fod yn newydd ac mewn cyfnod datblygu cynnar.
- 4.15 Mae gweledigaeth ac arweiniad y pennaeth a'r corff llywodraethol yn allweddol bwysig wrth benderfynu a gaiff y cyfleoedd dysgu proffesiynol a fydd ar gael eu cynnig i'r staff cymorth. Pan na fydd hwn yn ei le, mae'r defnydd gan staff cymorth o'r cyfleoedd sydd ar gael yn amrywio'n sylweddol.

- 4.16 Mae hunan-ysgogiad staff cymorth yn hollbwysig ar hyn o bryd i'w penderfyniad i ymgymryd â dysgu proffesiynol oherwydd diffyg hawl a diffyg unrhyw gymhellion gyrfaol.

Effaith

- 4.17 Yn rhai enghreifftiau, gwneir asesiadau o effaith staff cymorth ar gyrhaeddiad disgyblion, ond yn gyffredinol does dim asesu effaith yn digwydd yn systematig ac yn drylwyr yn yr ysgolion.
- 4.18 Er ei fod wedi'i gydnabod yn eang bod staff cymorth yn cael effaith bositif o ran lleihau baich gwaith yr athrawon, cefnogi a datblygu lles a sgiliau cymdeithasol disgyblion a chysylltiadau â'r gymuned, nid yw'r meysydd hyn yn rhai a fydd yn cael eu hasesu'n systematig ac yn drylwyr 'chwaith.
- 4.19 Does dim digon o arfarnu systematig a rheoli perfformiad staff cymorth yn digwydd yn yr ysgolion a fydd yn canolbwyntio ar yr effaith y cân nhw ar gyrhaeddiad a lles y disgyblion ac a fydd yn adnabod eu hanghenion datblygu proffesiynol.
- 4.20 Mae'r ymchwiler yn adnabod nad oes digon o arweiniad ar gael a all helpu athrawon a phenaethiaid i fwyafu effaith y staff cymorth ac nad yw canfyddiadau'r ymchwiler a wnaed yn y maes hwn yn cael eu defnyddio yn gyffredinol.

5. Argymhellion

- 5.1 Dylai Llywodraeth Cymru archwilio i gael gweld a fyddai'n bosib gweithio gyda phartïon eraill sydd â buddiant i ystyried strwythur cenedlaethol ar gyfer staff cymorth a fydd yn cynnwys:
- Teitlau, rolau a chyfrifoldebau swyddi
 - Lleoli a defnyddio
 - Graddio
 - Hawl i ddatblygiad proffesiynol
 - Arfarnu a rheoli perfformiad
- 5.2 Dylai Llywodraeth Cymru archwilio pa mor bosib fyddai gweithio gyda phartïon eraill sydd â buddiant i ystyried dichonoldeb canllawiau cenedlaethol newydd/diwygiedig ar:
- Y lleoli a'r defnydd ar staff cymorth yn y ffyrdd mwyaf effeithiol
 - Sut gellir dal a mwyafu effaith staff cymorth ar elfennau meintiol ac ansoddol addysg
 - Defnydd staff cymorth mewn addysgu dosbarth cyfan
 - Sut gellir osgoi gor-ddefnyddio'r staff cymorth i arwain gwaith gyda disgyblion
- 5.3 Ystyried cynnwys rhoi pwyslais ar ba mor bwysig yw cyd-gynllunio a gwaith tîm cydweithredol rhwng athrawon a staff cymorth, yn y safonau proffesiynol terfynol ar gyfer addysgu, arweinyddiaeth ac addysgu cynorthwyol.
- 5.4 Annog ehangu'r defnydd ar brentisiaethau yn llwybr mynediad i staff cymorth ac yn ffordd iddyn nhw gael hyfforddiant yn y gweithle.
- 5.5 Datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer datblygiad proffesiynol staff cymorth yn unol â'r Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol ac a fydd yn elwa o'r ddarpariaeth bresennol a'r ddarpariaeth yn y dyfodol.

6. Cyfeiriadau

- Basford, E., Butt, G. a Newton, R. (2017). 'To what extent are teaching assistants really managed?'. *School Leadership and Management*. 37(3):288-310
- Blatchford, P., Bassett, P. a Brown, P. (2012). *Reassessing the impact of teaching assistants: How research challenges practice and policy*. Rhydychen: Routledge.
- Butt, R. a Lowe, K. (2012) 'Teaching assistants and class teachers: differing perceptions, role confusion and the benefits of skills-based training' *International Journal of Inclusive Education*. 16(2):207-219
- Clarke, E. a Visser, J. (2016). 'Teaching Assistants managing behaviour- who knows how they do it? A review of the literature'. *Support for Learning*. 31(4):266-280.
- Department for Education (2018). *School Workforce Census*. Llundain: Yr Adran Addysg.
- Education Workforce Council (2017). *Annual Statistics Digest*. Caerdydd: Cyngor y Gweithlu Addysg.
- Estyn (2015). *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, 2013-2014*. Caerdydd: Estyn
- Estyn (2017) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, 2015-2016*. Caerdydd: Estyn.
- Higgins, S., Katsipataki, M., Villanueva-Aguilera, A.B., Coleman, R., Henderson, P., Major, L.E., Coe, R. a Mason, D. (2016). *The Sutton Trust-Education Endowment Foundation Teaching and Learning Toolkit*. Llundain: Sutton Trust
- Holtom, D. (2017). 'Narrowing the Gap: Lessons from RAISE Ten Years On'. *Wales Journal of Education*. 19 (2):118-142.
- Nash, M. (2014). Teachers and Teaching Assistants Working Together: The Perceptions of Teaching Assistants Within a National Framework. Traethawd ymchwil a gyflwynwyd i Brifysgol Metropolitan Manceinion ar gyfer gradd Doethur Addysg.
- National Joint Council for Local Government Services (2003). *Schools Support Staff: the way forward*. Llundain: National Joint Council for Local Government Services.
- Rubie-Davies, C.M., Blatchford, P., Webster, R., Koutsoubou, M. a Bassett, P. (2010). 'Enhancing Learning? A comparison of teacher and teaching assistant interactions with pupils'. *School Effectiveness and School Improvement: An International Journal of Research, Policy and Practice*. 21. 429-449.

- Russell, A., Webster, R. a Blatchford, P. (2012). *Maximising the impact of teaching assistants*. Abingdon: Routledge.
- Sharma, U. a Saland, S. J. (2016). 'Teaching Assistants in Inclusive Classrooms: A Systematic Review of the International Research'. *Australian Journal of Teacher Education*. 41(8):118-134.
- Sharples, J., Webster, R. a Blatchford, P. (2018). *Making Best Use of Teaching Assistants*. Llundain: Education Endowment Foundation.
- Siraj, I. (2014). *Archwiliad annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- Stewart, J. (2009). Classroom Assistants: their impact in Scottish primary schools. Traethawd a gyflwynwyd ar gyfer gradd EdD i Brifysgol Glasgow.
- The Teacher Workload Agreement (2003). *Raising standards and tackling workload: a national agreement*.
- Warhurst, C., Nickson, D., Commander, J. a Gilbert, K. (2014). 'Role stretch': assessing the blurring of teaching and non-teaching in the classroom assistant role in Scotland. *British Educational Research Journal*.40(1):170-186
- Webster, R., Russell, A. a Blatchford, P. (2016). *Maximising the impact of teaching assistants: Guidance for school leaders and teachers*. Abingdon: Routledge.
- Webster, R. a Blatchford, P. (2017). *The Special Educational Needs in Secondary Education (SENSE) study. Final Report*. Llundain: UCL.
- Webster R. (2018). [A quiet revolution?](#)
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003). *Y Wlad sy'n Dysgu: Y Cyfnod Sylfaen 3 i 7 oed*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008a). *Fframwaith y Cyfnod Sylfaen ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Llywodraeth Cymru (2008b). *School support staff in Wales: Research report on the employment and deployment of support staff in schools in Wales*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Llywodraeth Cymru (2011). *Safonau proffesiynol diwygiedig ar gyfer ymarferwyr addysg yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru (2013a). *Grant Amddifadedd Disgyblion: Canllaw byr i ymarferwyr*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2013b). *Cynllun gweithredu i hyrwyddo rôl a hybu datblygiad staff cymorth mewn ysgolion yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2014). *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Canfyddiadau Allweddol ar Staffio*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2015). *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Adroddiad Terfynol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Whitehorn, T. (2010). *School Support Staff: Topic Paper*. Llundain: Yr Adran Addysg.

7. Atodiadau

Atodiad 1: Ymatebion i Arolwg y Penaethiaid

Atodiad 1.1: Ymatebion y Penaethiaid yn ôl Awdurdod Lleol


ALI	%
Blaenau Gwent	2%
Pen-y-bont ar Ogwr	5%
Caerffili	3%
Caerdydd	4%
Sir Gaerfyrddin	4%
Ceredigion	1%
Conwy	6%
Sir Ddinbych	2%
Sir y Fflint	7%
Gwynedd	5%
Ynys Môn	5%
Merthyr Tudful	1%
Sir Fynwy	5%
Castell Nedd Port Talbot	2%
Casnewydd	4%
Sir Benfro	8%
Powys	7%
Rhondda Cynon Taf	7%
Abertawe	7%
Bro Morgannwg	7%
Torfaen	2%
Wrecsam	5%
Cyfanswm	100%

Atodiad 1.2: Ysgolion yn ôl GCD, y nifer sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a maint


Allwch chi ddangos faint o ddisgyblion sydd yn eich ysgol?						
		llai na 100	100-200	201-300	301-400	401+
Am faint o GCD rydych chi'n gyfrifol yn eich ysgol?	1-5	88%	24%	0%	5%	0%
	6-10	9%	57%	42%	0%	0%
	11-15	3%	11%	46%	33%	19%
	16-20	0%	7%	13%	33%	23%
	20+	0%	2%	0%	29%	58%
	Cyfanswm	100%	100%	100%	100%	100%
Allwch chi ddangos pa ganran o'ch disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim?	1-10	58%	34%	27%	36%	19%
	11-20	26%	32%	35%	23%	23%
	21-30	13%	17%	21%	18%	42%
	31-40	0	6%	15%	18%	8%
	41-50	0	6%	2%	5%	4%
	50+	3%	4%	0%	0%	4%
	Cyfanswm	100%	100%	100%	100%	100%

Atodiad 2: Ymatebion i arolwg y staff cymorth


Atodiad 2.1: Pa awdurdod lleol sydd yn eich cyflogi?




Atodiad 2.2: Ers faint o flynyddoedd rydych chi'n gweithio yn weithiwr cymorth dysgu (GCD) yn yr ystafell ddosbarth?



Atodiad 2.3: I faint o ysgolion rydych chi wedi gweithio yn GCD?



Atodiad 2.4: Ers faint o flynyddoedd rydych chi yn eich ysgol bresennol?



Atodiad 3 – Ymatebion i arolwg y staff cymorth

Atodiad 3.1 – Pam daethoch yn weithiwr cymorth dysgu? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

Ateb	%
Rwy'n mwynhau cynorthwyo'r athrawon i ddatblygu dysgu'r disgyblion	34%
Rwy'n hoffi'r cydbwysedd gwaith/bywyd y bydd gwaith cymorth dysgu yn ei roi i fi	27%
Dechreuais yn wirfoddolwr ac ar ôl hynny roeddwn am gael rôl â thâl	17%
Roeddwn i'n arfer gweithio ym maes gofal plant ond roeddwn am symud i fyd addysg	9%
Roeddwn am gael y sicrwydd y bydd swydd yn y sector cyhoeddus yn ei gynnig	6%
Arall (gweler isod)	5%
Rwyf wedi ennill Statws Athro Cymwysedig ond dw i ddim am weithio yn y rôl hon	2%
Rwyf wedi ennill Statws Athro Cymwysedig ond heb gael swydd yn athro cymwysedig	0.6%
Cyfanswm	

Atodiad 3.2 – Ymatebion eraill

Ymateb	Cyfanswm (% o 50)	Dyfyniadau enghreifftiol
Gweithio gyda phlant / galwedigaeth	36%	"Yn dwlu gweithio gyda phlant a'u cael i symud i fyny'r lefelau" "Rwy'n mwynhau rôl y swydd ac addysgu'r plant" "Helpu'r plant i flodeuo ac i gyrraedd eu potensial llawn" "Swydd rwyf eisiau ei gwneud erioed" "Rwy'n mwynhau gweithio gyda phlant a bod yn rhan o'u datblygiad addysgol cyffredinol, mae gweld plant yn llwyddo yn rhan o'm swydd sy'n rhoi boddhad mawr"
Llwybr i addysgu / magu profiad cyn ac yn ystod addysg gychwynnol i athrawon	10%	"Penderfynu a oedd y proffesiwn addysgu i fi" "Am ennill SAC yn y pen draw" "Rwyf yn magu profiad perthnasol i'm helpu yn fy ngyrfa yn athro yn y dyfodol" "Rwyf yn gwneud y swydd hon tra'n cwblhau gradd mewn Addysg Gynradd"
Cydbwysedd bywyd-gwaith / gwaith yn ystod y tymor /	8%	"Roeddwn am weithio yn ystod y tymor yn unig" "Yn ffitio o gylch fy nheulu" "Er mwyn i fi gael canolbwyntio ar fagu fy mhlant fy hunan"

yn ffitio o gylch y teulu		
NNEB neu gymhwyster neu brofiad blaenorol	8%	"Fe wnes i hyfforddi yn N.N.E.B 38 mlynedd yn ôl ac rwy'n [gweithio] gyda phlant erioed" "Roedd profiad blaenorol gen i o weithio gyda phlant mewn sefyllfa gwasanaethau cymdeithasol"
Newid gyrfa (anwirfoddol)	4%	"Roeddwn yn Nyrs Feithrin ond ces i fy israddio pan gafodd gwerthusiad swydd ei wneud" "Rwy'n teimlo y ces i fy ngyrro o'm swydd addysgu, roeddwn yn hoff iawn ohoni, gan bennaeth a wnaeth fy mywyd gwaith yn annioddefol"
Newid gyrfa (gwirfoddol)	4%	"Newid gyrfa" "Roeddwn yn gweithio ym maes iechyd ond cefais anaf a rhaid rhoi'r gorau i'r swydd honno felly meddyliais am newid gyrfa."
Gweithio gydag AAA / ADY	4%	"Roeddwn am weithio gyda phlant oedd â nam ar eu clyw" "Mae anghenion dysgu ychwanegol gan fy nau blentyn ac roeddwn am ddefnyddio'r sgiliau roeddwn wedi'u dysgu a bod ar gael ar gyfer fy mhiant fy hun y tu allan i oriau ysgol"
Amrywiol	26%	"Roeddwn am wneud defnydd da o fy Nghymraeg Safon U!" "Roedd yn llwybr y ces i fy annog i'w ddilyn wedi gadael ysgol a mynd ymlaen i addysg uwch – tystysgrif NNEB" "Helpu plant o wlad Pwyl a'u rhieni" "Fe wnes i waith cyflenwi i ennill SAC ond bellach alla i ddim fforddio bod heb gyflog am flwyddyn i wneud fy hyfforddiant" "Dyma'r llwybr a ddewisais er mwyn dod nôl i'r gweithle wedi cael amser o'r gwaith gyda fy mhiant" "Llwyddais i gael oriau fel cynorthwydd addysgu gyda'r bwriad i gael fy nefnyddio hefyd yn athro cyflenwi rheolaidd a oedd wrth law / ar y safle"

Atodiad 4 – Ymatebion i arolwg staff cymorth

Lefel a hyd cyflogaeth

		Ers faint o flynyddoedd rydych chi'n gweithio yn weithiwr cymorth dysgu (GCD) yn yr ystafell ddosbarth?					
		0-5	6-10	11-15	16+	%	Cyfanswm
Ar ba lefel mae eich swydd yn ôl eich contract? (dewiswch un)	CCD/CA lefel 1	28	24	15	3	16%	70
	CCD/CA lefel 2	39	36	21	19	26%	115
	CCD/CA lefel 3	23	47	44	47	37%	161
	CCD/CA lefel 4	3	12	18	30	14%	63
	Arall (rhowch fanylion)	3	11	8	10	7%	32
	Cyfanswm	96	130	106	109		441
A yw eich swydd yn weithiwr cymorth dysgu? (dewiswch un)	Parhaol	39	71	55	62	51%	227
	Gweithio'n barhaol yn ystod y tymor	18	42	45	35	32%	140
	Cyflenwi	3	1	0	1	1%	5
	Dros dro	18	6	2	1	6%	27
	Gweithio dros dro yn ystod y tymor	7	4	1	6	4%	18
	Gwirfoddol	0	0	0	0	0%	0
	Contract treigl blynyddol	9	4	3	3	4%	19
	Arall (rhowch fanylion)	2	3	0	2	2%	7
	Cyfanswm	96	131	106	110		443

Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich swydd orau? (dewiswch un)	Rwyf wedi fy nghyflogi'n amser llawn (30-35 awr +) yn weithiwr cymorth dysgu	52	77	74	67	61%	270
	Rwyf wedi fy nghyflogi'n rhan-amser yn weithiwr cymorth dysgu	44	54	33	41	39%	172

Atodiad 5 – Ymatebion i arolwg staff cymorth

Os ydych yn awyddus i ennill cymwysterau ychwanegol, beth fydden nhw a pham?

Cymhwyster / maes / lefel	Nifer	Pam? Dyfyniadau enghreifftiol o'r ymatebion
AAA ADY a/neu anghenion penodol (awtistiaeth a dyslecsia)	52	<i>"am fy mod yn gweithio un-i-un, byddai'n beth da cael y wybodaeth ddiweddaraf ar anghenion gwahanol a'r asiantaethau sy'n helpu"</i> <i>"gan fod mwy a mwy o blant yn dod atom gydag AAA"</i>
CALU	41	<i>"Hoffwn ddod yn CALU gan y bydd yn fuddiol i fi a'm gwybodaeth ond hefyd i'r ysgol, gan ddiweddarau ac ehangu fy nysgu i fy hun."</i>
CALU a SAC / Gradd addysgu	17	<i>"gwell cyflog a datblygiad gyrfa i gael dod yn athro"</i> <i>"Parhau i gwblhau fy ngradd israddedig ac yna gwneud TAR â'r bwriad o weithio yn athro yng Nghymru"</i>
Unrhyw (gymhwyster sydd ar gael)	15	<i>"Unrhyw beth sy'n gwella fy nghronfa wybodaeth ac yn gallu gwella fy ymarfer."</i> <i>"Unrhyw gymhwyster a fyddai'n cynorthwyo'r plant yn fy ngofal Unrhyw beth i'm helpu i ddatblygu fy ngyrfa."</i>
Gradd / BA Anrh	9	<i>"Er mwyn cael bod â mwy o'r sgiliau sy'n ofynnol"</i> <i>"Byddai'n neis bod yn gallu ennill mwy o gymwysterau er mwyn gwella fy ngallu a'm gwybodaeth ar ôl gweithio yn nyrs feithrin ers 28 mlynedd. Byddaf bob amser yn cyllido fy nysgu fy hunan; ond nid yw'n hawdd i mi gael yr arian eleni."</i> <i>"datblygu cyfleoedd gyrfa ble y byddaf yn gallu ennill cyflog byw gwirioneddol."</i>
Lefel 3	8	
SAC	7	
Cymraeg	7	<i>"er mwyn deall yr iaith hon yn well pan fyddaf yn addysgu Cymraeg"</i>
Gradd Sylfaen	6	<i>"Gwella fy hunan o fewn fy rôl"</i> OND <i>"Dw i ddim yn cael cynnig fawr o hyfforddiant gan mai bach iawn sy'n addas oherwydd cyfyngiadau ariannol ac rwyf wedi cyflawni llawer heb fod fawr ddim yn addas. Hoffwn yn fawr wneud Gradd Sylfaen yn y dyfodol ond mae'r arian yn broblem"</i>

		<i>"Hoffwn ddechrau Gradd Sylfaen ond yn ariannol nid yw'n bosib"</i>
Lefel 4	5	
Lefel 5	3	
Cwrsela	3	
Dysgu Awyr Agored / Ysgolion Coedwig	2	"er mwyn bod yn gallu gwneud y defnydd gorau posib o'r gofod awyr agored"
TGCh / TG Magwraeth Iaith a lleferydd Gweithredu adferol Meithrin/Magu Emosiynol / ymddygiadol Cefnogi iaith a lleferydd Doethuriaeth	1	

Atodiad 6 – Ymatebion i arolwg staff cymorth

Atodiad 6.1 Rolau ychwanegol a wnaed gan y staff cymorth – ymatebion agored

Cyflenwi dosbarthiadau ar fy mhen fy hun ar gyfer PCA (lefel 4)
Cyflenwi PCA i ddosbarth cyfan
Wedi gweithio mewn uned o 60 o ddisgyblion – 2 ddosbarth yn cael eu rhedeg gan 2 swyddog cymorth dysgu gydag un athro yn rheoli'r uned yn gyffredinol
Gweinyddiaeth
Cyflenwi addysgu dosbarth cyfan ar gyfer PCA ac amser rheoli. Yn gyfrifol am arddangosfeydd, gweinyddu'r ystafell ddosbarth, ac ati
Arddangos
Yn gyfrifol am ymyriadau llythrennedd ADY. Pob cynllunio, tracio, cofnodi, asesu. Gweithio ar fy mhen fy hunan gyda rhwng 1 a 9 plentyn ar y tro. Yn aml yn gorfod mynd â hanner dosbarth i ystafell arall i ddyblygu beth oedd yn digwydd yn yr ystafell ddosbarth ond gyda phlant llai galluog gan fwyaf. Hyd at 15 plentyn. Yn cymryd dosbarth cyfan yn anaml iawn.
Cymryd y rôl arweiniol yn y dosbarth pan fydd yr athro'n absennol. Er enghraifft, os bydd yr athro ar gwrs, mewn cyfarfod, neu ar PCA, yn hytrach na thalu athro cyflenwi tua £100 y dydd, rwy'n gwneud y gwaith gan gostio £19 ychwanegol y dydd, sy'n arbed llawer o arian o'i gymharu â chael athro i gyflenwi, ond gan fy mod yn berson sy'n ennill cyflog pro rata, alla i ddim gwrthod gan fod angen yr incwm ychwanegol arna i.
Addysgu Cymraeg a cherddoriaeth
Cyflenwi PCA athrawon
Paratoi bwyd, tasgau glanhau
Mynd â grwpiau allan i gyflawni'r rhaglenni ymyrryd sydd gan yr ysgol ar gyfer disgyblion AAA a sgiliau sylfaenol
Anghenion arbennig 1:1 yn bennaf
Cydlynnydd ymyriadau ADY
Sesiynau ELSA (Cynorthwydd Cymorth Dysgu Emosiynol)
Cymorth dosbarth cyfan heb yr athro'n bresennol

Cymorth dosbarth cyfan heb yr athro'n bresennol heb unrhyw fudd ariannol
Addysgu dosbarth cyfan heb unrhyw gymorth
Pob elfen o redeg ystafell ddosbarth
Cymorth dosbarth cyfan heb yr athro'n bresennol
Cyflenwi yn yr ystafell ddosbarth, cyflenwi salwch, PCA, ac ati
Addysgu dosbarth cyfan heb fod yr athro'n bresennol
Cyflenwi dosbarth cyfan ar gyfer athrawon sy'n absennol heb gymorth oedolyn arall
Asesu, Gofal Bugeiliol
Arddangosfeydd, lamineiddio llyfrau, dyletswyddau amser cinio/egwyl, cymorth ar gyfer cyngherddau Nadolig
Cymorth dosbarth cyfan, cyflenwi PCA, un prynhawn yr wythnos
Cymorth cyfathrebu
Addysgu dosbarth cyfan
Cyflenwi PCA
Cyflenwi yn y dosbarth pan fydd yr athro ar PCA, yn absennol. Hefyd yn fentor RWI yn cynnig cymorth ac addysgu tîm i'r staff, ysgrifennu Cynlluniau Addysgu Unigol ar gyfer y plant y byddaf yn gweithio gyda nhw.
Cyfathrebwr iaith arwyddion Prydain
Addysgu grwpiau ar fy mhen fy hun
Addysgu dosbarth cyfan wrth gyflenwi PCA
Cyflenwi PCA dosbarth cyfan
Marcio gwaith
Rhedeg dosbarth meithrinol
Tasgau gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r ystafell ddosbarth
Disgwyl perfformio tasgau am ddim

Cyflenwi PCA dosbarth cyfan
Cyflenwi PCA
Gwersi Cymraeg
Gwaith grŵp gyda theuluoedd – yr enw gwreiddiol oedd iaith a chwarae
Gwaith gweinyddol ar gyfer yr ystafell ddosbarth, asesu a chofnodi canlyniadau
Cyflenwi PCA
Addysgu dosbarth cyfan fel pebawn yn lefel 4. Goruchwyllo plant wrth iddyn nhw chwarae. Cefnogi'r athro ym mhob elfen o'r gwaith o ddydd i ddydd. Cefnogi Cynorthwyyr Addysgu. Rhedeg rhaglenni ymyriadau a helpu i'w goruchwyllo gyda'r cydlynnydd ADY. Cefnogi TG gyda phlant a staff a pharatoi pryfed ar gyfer y staff.
Pwyllgor Cyfathrebu, Dylunydd Gwefan, Trefnydd Digwyddiadau
Cymorth dosbarth cyfan heb yr athro'n bresennol
Cwmsela disgyblion sy'n dioddef â phryder
Llanw lle athro ar PCA heb unrhyw gymorth
Cyflenwi PCA a chyflenwi athro pryd bynnag y bydd angen gwneud hynny
Ymyriadau, cyflenwi PCA gyda chynorthwyydd cymorth dysgu arall, dyletswyddau amser egwyl, cefnogi disgyblion amser cinio
Arwain gwaith dysgu dosbarthiadau cyfan
Cyflenwi i athrawon
Cyflenwi dosbarth cyfan. Heb yr athro
Addysgu dosbarth cyfan heb fod yr athro'n bresennol
Cyflawni dysgu awyr agored
Ymgysylltu â rhieni ac addysgu CALU dosbarth cyfan
Cyflenwi PCA a chyflenwi i rai absenoldebau athrawon, gweithredu rhaglenni therapi iaith a lleferydd, arwain a gweithredu rhaglenni ymyrryd i blant gael dal-i-fyny a phlant sydd ag ADY, dyletswyddau iard chwarae, cynllunio a pharatoi gwersi gyda'r athrawon, prif berson cymorth cyntaf, cadw gwefan yr ysgol wedi'i diweddarau.

Cymorth amser llawn ar gyfer Cydlynnydd ADY
Cyflenwi dosbarthiadau ar gyfer athrawon sydd yn sâl/ absenoldeb a gynlluniwyd, megis cyrsiau neu mynd i wyllo diwrnod chwaraeon eu plant. Dyletswydd iard, Person cymorth cyntaf.
Mae'n ofynnol i fi wneud gwaith CALU ers mwy na 2 flynedd, hyd yn oed pan dynnwyd fy rôl yn nyrs feithrin oddi arnaf a bu rhaid torri fy nghyflog a gosod fy rôl ar lefel 3.
Addysgu dosbarth cyfan heb gymorth
Cyflenwi PCA a rhaglenni cymorth dysgu emosiynol
Llyfrgellydd
Lles a chymorth meithrinol
Cyflenwi PCA
Cynorthwyydd Cymorth Dysgu Emosiynol (ELSA)
Newid plant pan fyddan nhw'n gwlychu eu hunain, glanhau pan fydd rhywun wedi chwydu, rhoi papur toiled newydd a rhoi papur yn y peiriant pan fydd y gofalwr heb eu hail-lenwi, helpu'r cynorthwyydd cinio os bydd rhywun yn absennol oherwydd salwch, paratoi ffrwythau amser egwyl, cyweirio'r llun-gopiwr, enwch chi fe ac fe fyddwn ni yn ei wneud e.
Cynllunio ar gyfer darpariaeth annibynnol barhaus
Cyflenwi PCA
Cymorth dosbarth cyfan heb yr athro'n bresennol, cyflenwi yn CALU hefyd ac yn lle aelodau staff sy'n absennol a staff ar gyrsiau
Goruchwyliwr cyflenwi/CALU ar gyfer cyflenwi PCA
Addysgu dosbarth cyfan adeg PCA heb fod athro na chynorthwyydd addysgu yn bresennol. Rwy'n gwrthwynebu bod disgwyl i'r gwaith hwn fod yn rhan o'm swydd.
Wedi gofyn i fi ofalu am anifeiliaid fferm sy'n cael eu cadw ar y safle, gan gynnwys eu bwydo a glanhau eu cytiau. Gwaith gweinyddol yn ymwneud â'm gwaith yn yr ystafell ddosbarth, paratoi a dosbarthu diodydd a lluniaeth ysgafn, goruchwyllo amser cinio'r plant meithrin, llenwi taflenni cynllunio gweithgareddau, cynnal a chadw'r ystafell ddosbarth a'i gwedd, e.e. peintio ac addurno, rhywfaint o lanhau
Rhoi mwy o bapur a sebon yn y toiledau, ateb y ffôn, cyflenwi yn oruchwyliwr amser cinio, mynd i gyngherddau a digwyddiadau y tu allan i oriau gwaith

Cymryd y dosbarth cyfan heb fod yr athro'n bresennol 2 ddiwrnod bob wythnos
Addysgu pwnc am un wers yr wythnos heb fod yr athro'n bresennol
Profi plant yn wythnosol a bob tymor
Cynllunio asesiadau, gwneud ac adolygu gwaith ymyrryd
Darpariaeth feithrinol ar gyfer grŵp
Rhedeg cyrsiau ysgrifennu dosbarthiadau
Rwyf yn ELSA (Cynorthwydd cymorth dysgu emosiynol) hefyd
Cynorthwydd SALT
Dosbarth cyfan heb fod yr athro'n bresennol
Cyflenwi dosbarthiadau
Cynllunio a chofnodi gwaith ar gyfer grwpiau o ddysgwyr CA1
Cyflenwi PCA
Dosbarth cyfan heb fod yr athro'n bresennol
Cwblhau asesiadau, adroddiadau, ffurflenni atgyfeirio, llinell sylfaen plant a data ar gyfer dilyniant. Rheoli dosbarth cyfan heb gymorth athro. Rheoli ccd o fewn y dosbarth. Trefnu plant, staff, gweithgareddau o fewn yr ystafell ddosbarth. Yn gyfrifol am lyfrau'r plant a marcio. Mynd i gyfarfodydd staff a rhoi adborth i'r ccd. Trefnu sesiynau cysylltu a chynnal y cysylltiad â Dechrau'n Deg lleol. Paratoi, gosod a rhoi'r ddarpariaeth heibio bob dydd. Gwella'r ystafell ddosbarth â gweithgareddau â themâu iddyn nhw a sgiliau â ffocws. Adrodd wrth rieni. Ymdrin â materion yn ymwneud â rhieni. Cwblhau asesiadau risg. Rhoi adborth o'r hyfforddiant.
Rhedeg clybiau ar ôl ysgol yn wirfoddol, cynnal cyfarfodydd y cyngor ysgol, gwneud gwaith cynllunio ac asesu, nosweithiau rhieni, ysgrifennu adroddiadau'r plant, mynd i gyfarfodydd i drafod ADY.
Dosbarth cyfan heb fod yr athro'n bresennol
Cymorth cyntaf
Cyflenwi PCA heb athro'n bresennol
Eco-gydlunydd, swyddog ymgysylltiad teuluol, tystiolaeth portffolio buddsoddwyr mewn teuluoedd
Rwyf yn cyflenwi PLS bob wythnos

Cyflenwi pan fydd athrawon ar PCA
Rôl PCA amser llawn
Goruchwyliwr cyflenwi
Bydd cyflawni'r addysgu yn yr ystafell ddosbarth wedi'i rannu 50/50 rhwng yr athro a finnau gyda hanner y plant; caiff y plant eraill eu cefnogi gyda dysgu annibynnol yn yr awyr agored gan bwy bynnag na fydd yn addysgu ar y pryd.
ELSA
Rhywfaint o waith addysgu/goruchwylio dosbarth cyfan
Cyflenwi PCA
Addysgu dosbarth cyfan heb fod yr athro'n bresennol
Cymorth amser cinio
Cyflenwi pan fydd yr athro'n gorfod gadael y dosbarth am ychydig
Dosbarth cyfan heb fod yr athro'n bresennol
Dosbarth cyfan heb athro
Gweld i'r llyfrau llyfrgell/eiddo coll, dyletswyddau cymorth cyntaf, goruchwylio amser cinio/egwyl, cyflenwi dosbarthiadau yn absenoldeb athrawon gan gynnwys addysgu o'r cynllun wythnosol, gweld i fyrddau arddangos a'u gosod i fyny, glanhau a thacluso rhai rhannau o'r ysgol.
Addysgu
Cyflenwi PCA, cyflawni gwersi, addysgu awyr agored, cynnal y mannau dysgu awyr agored
Cymryd dosbarth yn absenoldeb yr athrawes
Addysgu dosbarth cyfan heb fod athro'n bresennol
PCA
Goruchwyliwr cyflenwi
Addysgu dosbarth cyfan heb fod athro'n bresennol a heb unrhyw gymorth i minnau
ELSA ac Ymarferydd Ffynnu

Rwy'n cyflawni gwersi i'r dosbarth derbyn, blwyddyn 1 a blwyddyn 2 heb fod athro'r dosbarth yn bresennol
Cyflawni Dysgu Awyr Agored/Ysgol y Goedwig i bob dosbarth, ymyriadau darllen ac ymyriadau ffynnu, eco-gydlynnydd
Cyflenwi dosbarth PCA
Dosbarth cyfan gyda/heb gymorth GCD
Arwain gwasanaeth unwaith yr wythnos
Integreiddio disgyblion i ysgolion prif ffrwd
Cymorth dosbarth cyfan heb yr athro'n bresennol
Cymorth dosbarth cyfan heb yr athro hefyd
Cyflenwi dosbarthiadau CALU
Cynllunio gwersi TGCh a'u cyflawni gyda phob dosbarth yn yr ysgol
Cymorth dosbarth cyfan heb yr athro'n bresennol
Addysgu dosbarth cyfan heb fod yr athro'n bresennol (3-4 awr yr wythnos o leiaf)
Rwyf yn cynllunio ac yn addysgu gwersi Celf a Dylunio a Thechnoleg i bob dosbarth CA2
Cyflenwi dosbarthiadau yn absenoldeb yr athro. Cyflawni gwaith cynllunio, marcio llyfrau, ac ati
Arweinydd ysgol y goedwig
Strategaethau dysgu i gynorthwywyr newydd
Dosbarthiadau llawn PCA
Therapi Iaith a Lleferydd
Read Write Inc gyda grŵp yn cynnwys tua 8-10 o blant blwyddyn 2 bob dydd
Cynorthwydd cinio
Addysgu dosbarth cyfan, cyfrifoldeb am ddosbarth meithrin, asesu, ysgrifennu adroddiadau, cyfarfodydd rhieni
Cyflenwi PCA un prynhawn yr wythnos, cyflenwi hefyd pan fydd athro'r dosbarth yn absennol

Arwain y dysgu yn y dosbarth Derbyn a Blwyddyn 3 pryd y bydd yr athro arferol ar gyfnod CPA
Cymorth dosbarth cyfan heb yr athro'n bresennol, goruchwyllo'r iard chwarae, cynorthwyo â gofal personol, cynorthwyo'n ddi-dâl pan fydd cyngerdd neu ffair ac ati yn yr ysgol
Cyflenwi'r dosbarth heb fod yr athro'n bresennol
Cefnogi anghenion emosiynol plant ELSA ar deithiau preswyl
Dyletswydd amser chwarae, glanhau, mynd i'r toiled, cyflenwi dosbarthiadau
Arolygu arholiadau – marcio Profion Rhifedd Cenedlaethol a chofnodi'r data
Cyngor Ysgol
Cynorthwydd cymorth dysgu emosiynol
Addysgu'r dosbarth cyfan ar fy mhen fy hun
Dechrau unigolion
Yn cymryd dosbarthiadau cyfan yn rheolaidd y byddaf wedi'u cynllunio fy hunan

Atodiad 7 – Ymatebion i arolwg y staff cymorth

Atodiad 7.1 I ba raddau byddech chi'n cytuno â'r gosodiad canlynol: Rwy'n credu bod fy ysgol yn effeithiol yn cael y gorau oddi wrthyf i ac oddi wrth GCD eraill.

Ateb	%		Nifer
Cytuno'n gryf	27%	64%	134
Cytuno i raddau	37%		187
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	15%	15%	77
Anghytuno i raddau	15%	21%	77
Anghytuno'n gryf	6%		30
Cyfanswm	100%		505

Atodiad 7.2 Pa agweddau o'ch rôl sy'n rhoi'r boddhad mwyaf i chi? (dim mwy na thri dewis)

	%
Cefnogi/ennyn diddordeb y dysgwyr a'u gweld nhw'n datblygu	31%
Cefnogi dysgwyr sydd ag anghenion dysgu arbennig a/neu ychwanegol	19%
Rhoi cynnig ar ddulliau dysgu ac addysgu newydd ac arloesol	14%
Gweithio gyda phobl eraill (yn yr ysgol neu y tu allan i'r ysgol)	11%
Rhannu arferion da	10%
Datblygu'ch hunan yn GCD	9%
Rhyngweithio â rhieni neu warcheidwaid	5%
Arall (rhowch fanylion)	1%
Cyfanswm	100%